Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Chwefror 2024

## 1. Cefndir

**1.** Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 ar 19 Rhagfyr 2023 ac mae'n nodi dyraniadau ar gyfer pob un o Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru.[1] 2024-25 yw blwyddyn olaf y cyfnod gwariant tair blynedd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wrth bennu cyllideb 2022-23. Nid oes cynlluniau dangosol wedi'u nodi y tu hwnt i 2024-25.

### Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft

#### Casglu tystiolaeth

**2.** Ar 19 Medi 2023, gwnaethom ystyried ein dull o graffu ar y gyllideb. Cytunwyd y byddem yn manteisio ar gynnig Llywodraeth Cymru o friff technegol ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, yn ogystal â chytuno ar y meysydd yr oeddem am ganolbwyntio ein craffu arnynt. Yn dilyn y trafodaethau hyn, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidogion canlynol ym mis Hydref yn amlinellu'r wybodaeth yr oeddem ei heisiau cyn ein sesiynau tystiolaeth lafar:

- Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant;[2]

---

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025, 19 Rhagfyr 2023
[2] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 9 Hydref 2023

- Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg;[3] a
- Llythyr at Weinidog yr Economi.[4]

**3.** Oherwydd gwrthdaro amserlennu, ni fu modd i ni gael tystiolaeth lafar gan Weinidog yr Economi, felly cytunwyd nad oedd angen darparu papur ysgrifenedig.

**4.** Cawsom ymateb ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 21 Rhagfyr 2023[5], a chan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 22 Rhagfyr 2023.[6]

**5.** Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r ymatebion perthnasol i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn gynharach yn nhymor yr Hydref.[7]

**6.** Cawsom y briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ym mis Tachwedd 2023. Gwnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 11 Ionawr 2024; a chyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 17 Ionawr 2024.

**7.** Gwnaethom gytuno i adeiladu ar ein gwaith blaenorol yn craffu ar y gyllideb, a cheisio sicrhau ein bod yn gweithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin. Yn benodol, trafododd ein Cadeirydd faterion yn ymwneud â chyllid ysgolion a gofal cymdeithasol gyda CLlLC a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Hefyd, bu aelodau Pwyllgor yr Economi, Materion Gwledig a Masnach yn trafod materion yn ymwneud â phrentisiaethau gradd yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor hwnnw ar Weinidog yr Economi. Credwn fod cydweithio yn nodwedd bwysig o waith craffu effeithiol ar Lywodraeth Cymru, ac


---

[3] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 9 Hydref 2023
[4] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog yr Economi, 9 Hydref 2023
[5] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg, Rhagfyr 2023
[6] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023
[7] Y Pwyllgor Cyllid, Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Ymgynghoriad

rydym yn falch o weld hynny'n parhau yn y gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft eleni.

# 2. Cyllideb Ddrafft 2024-25

**8.** Cyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru (adnoddau, refeniw a chyfalaf gyda'i gilydd) yw tua £23.7 biliwn.




## Newidiadau i Brif Grwpiau Gwariant

**9.** Mae'r ffeithlun isod yn nodi newidiadau rhwng y Terfynau Gwariant Adrannol yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a Chyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i hailddatgan).

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i hailddatgan) i Gyllideb Ddrafft 2024-25 |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £11,690m | £929m 8.6% ▲ |
| Cyllid a Llywodraeth Leol* | £5,092m | -£33m -0.6% ▼ |
| Newid Hinsawdd | £2,848m | -£84m -2.9% ▼ |
| Y Gymraeg ac Addysg** | £2,586m | -£56m -2.1% ▼ |
| Yr Economi | £541m | -£4m -0.8% ▼ |
| Materion Gwledig | £420m | -£29m -6.4% ▼ |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £333m | -£27m -7.4% ▼ |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £142m | -£12m -7.6% ▼ |

Ffynhonnell: Ymchwil y Senedd 2024

* Heb gynnwys £1.1 biliwn o incwm o ardrethi annomestig.

** Yn cynnwys dyraniad o £514 miliwn o refeniw anghyllidol oherwydd benthyciadau myfyrwyr.

Mae ffigurau wedi'u talgrynnu. Dylech gyfeirio at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 i weld yr union ffigurau.

**10.** Gellir defnyddio mesurau eraill i gymharu'r gyllideb newydd â:

- chyllideb y flwyddyn bresennol fel y mae yn dilyn y Gyllideb Atodol gyntaf ym mis Mehefin 2023;[8]

- cyllideb y flwyddyn bresennol i gyfrif am y symudiadau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023 fel rhan o arian ychwanegol i'r GIG a Trafnidiaeth Cymru[9] (a fydd yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn yr ail Gyllideb Atodol 2023-24);

- yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wario yn 2024-25 pan bennodd y gyllideb ddangosol ym mis Chwefror 2023[10] (dyma'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth ddisgrifio newidiadau i'r gyllideb).

## Pwysau ariannol

**11.** Gwyddom mai 2024-25 yw blwyddyn olaf y cyfnod gwariant tair blynedd a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wrth bennu cyllideb 2022-23. Felly, cyflwynir newidiadau i ddyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 yn nogfennau cyllideb Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 a bennwyd ym mis Chwefror 2023 (adeg Cyllideb Derfynol 2023-24). Nid oes cynlluniau dangosol wedi'u nodi y tu hwnt i 2024-25.

**12.** Yn naratif y Gyllideb Ddrafft, dywed y Gweinidog Cyllid "am yr ail flwyddyn yn olynol, nid yw ein setliad ariannu yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithriadol sydd ar Gymru", gan gynnwys chwyddiant sy'n parhau'n uchel, pwysau costau byw, codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus a galw cynyddol am wasanaethau. Mae hyn er gwaethaf £178 miliwn a £305 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2023-24

---

[8] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24
[9] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau, Rhagfyr 2023
[10] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2023-24, Chwefror 2023

a 2024-25 o Gyllideb y Gwanwyn a Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn y drefn honno.[11]

**13.** Dywed Llywodraeth Cymru fod ei setliad cyllido ar gyfer 2024-25 oddi wrth San Steffan yn werth £1.3 biliwn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei osod yn ddangosol ar ddechrau'r cyfnod adolygu gwariant tair blynedd adeg llunio cyllideb 2022-23.

### 'Egwyddorion arweiniol' Llywodraeth Cymru

**14.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi "ail-lunio" ei chyllidebau yn unol â set o "egwyddorion arweiniol":

- "diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen craidd cymaint â phosibl;
- blaenoriaethu swyddi, ble bynnag y bo modd;
- sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd sy'n cael eu taro galetaf;
- gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill y sector cyhoeddus i wynebu'r storm ariannol hon gyda'n gilydd; ac
- ailffocysu cyllid i ffwrdd o feysydd sydd heb eu datganoli, meysydd y dylai Llywodraeth y DU fod yn eu hariannu".[12]

# 3. Dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

### A yw dyraniadau'n dryloyw?

**15.** Yn unol â'n cylch gwaith, mae gennym rôl glir o ran craffu ar a yw plant a phobl ifanc yn cael eu cyfran deg o'r adnoddau sydd gan Lywodraeth Cymru i'w gwario.

**16.** Yn ei Chynllun Hawliau Plant 2021,[13] mae Llywodraeth Cymru yn nodi, er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, y bydd yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio'n

[11] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[12] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[13] Llywodraeth Cymru, 'Cynllun Hawliau Plant 2021', Rhagfyr 2021, tudalen 9

uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant. Dylai'r Asesiad hwn archwilio effeithiau posibl ei phenderfyniadau ar blant wrth iddynt gael eu datblygu ac, os oes angen, osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**17.** Rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Asesiad o Effaith ei Chyllideb Ddrafft ar Hawliau Plant yn ein hadroddiadau ar gyfer 2022-23[14] a 2023-24.[15] Mae'r argymhelliad hwn wedi'i wneud, ar ryw ffurf neu'i gilydd, bob blwyddyn yn y degawd diwethaf gan y pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar bolisi plant.

**18.** Ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion yn adroddiad y llynedd, gan fynnu bod ei Hasesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yn ffordd fwy effeithiol o ystyried yn gyfannol effaith y Gyllideb Ddrafft ar wahanol grwpiau o bobl.[16] Fodd bynnag, yn ystod y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft y llynedd, cynigiodd Llywodraeth Cymru friff technegol i ni ar sut y mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ystyried hawliau plant. Cynhaliwyd y briff hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar 16 Tachwedd 2023.

**19.** Unwaith eto eleni, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar wahân, gan barhau yn hytrach â'i Hasesiad Effaith Integredig Strategol, a gynhwysir fel atodiad i Naratif y Gyllideb. Dywed yr Asesiad:

> "*Mae cyfyngder yr amgylchiadau ariannol eithriadol yr ydym yn eu hwynebu wedi golygu bod angen dull gweithredu mwy sylfaenol.*"[17]

**20.** Nodwn nad yw'r Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn yn cyfeirio o gwbl at Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) nac at erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dywed:

> *"Plant a Theuluoedd*
>
> *111. Yn seiliedig ar y galw diweddaraf a ragwelir am ein cynnig Gofal Plant, rydym yn ailflaenoriaethu £11.2m, heb unrhyw effaith uniongyrchol disgwyliedig i'r ddarpariaeth. Rydym yn*

---

[14] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, Chwefror 2022
[15] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2023
[16] Llywodraeth Cymru, Ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Mawrth 2023
[17] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023

*ailflaenoriaethu cyllid o £7m o'n Grant Plant a Chymunedau sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar a gweithgareddau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Er bod y Grant Plant a Chymunedau yn dal i ddarparu cyllid o £171.4m, byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i liniaru effeithiau ailflaenoriaethu cyllid.*

*112. Rydym hefyd yn ailffocysu ein rhaglen Bwndel Babi gan ryddhau £3.5m. Rydym yn symud o fod yn fodel cyffredinol i fodel wedi'i dargedu'n fwy i sicrhau y gall gyrraedd y rhieni hynny y mae arnynt angen cymorth fwyaf."*[18]

**21.** Nodwn hefyd fod Cynllun Gwella'r Gyllideb 2024 i 2025 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft yn cyfeirio at barhau "i weithio gyda Plant yng Nghymru i gyhoeddi fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb ynghyd ag animeiddiad ym mis Ionawr 2024." Yn y blynyddoedd nesaf, mae'n dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn:

*"Parhau i fireinio a gwella tryloywder yr wybodaeth am y gyllideb, gan weithio gyda rhanddeiliaid allanol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r Gyllideb Flynyddol a'r ymgysylltiad â hi."*[19]

**22.** O ddiddordeb i ni hefyd mae'r dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyfeiriad at blant yng nghyd-destun prydau ysgol am ddim a chyllid myfyrwyr.[20]

## Defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer plant

**23.** Yn ystod gwaith craffu ar Gyllidebau Drafft olynol, rydym wedi ystyried yn gyson Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

*"States Parties shall undertake all appropriate legislative, administrative, and other measures for the implementation of the rights recognized in the present Convention. With regard to economic, social and cultural rights, States Parties shall undertake such measures to the maximum extent of their*

---

[18] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol, Rhagfyr 2023
[19] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb 2024 i 2025, 19 Rhagfyr 2023
[20] Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru: Rhagfyr 2023

*available resources and, where needed, within the framework of international co-operation.*[21]

**24.** Er ein bod yn deall nad yw hyn ond yn golygu gwario'r holl adnoddau sydd ar gael, mae'n awgrymu'r angen am asesiad ffeithiol o beth yw'r holl adnoddau sydd ar gael a'r angen i ryw o asesiad o hynny fod yn bosibl o ran gwariant ar blant.

**25.** Fodd bynnag, dywed y cyflwyniad ar y cyd gan elusennau plant i'r Pwyllgor Cyllid cyn Cyllideb Ddrafft 2024-25:

> *"The Welsh Governments preference for a holistic Strategic Integrated Impact Assessment to accompany their draft budget means that it is not possible to assess or analyse whether the 'maximum level of available resources' to fulfil UNCRC obligations are being met."*[22]

**26.** Mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylid cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25, ac mae'n ymhelaethu:

> *"There is a lack of transparency on expenditure on children in public budgeting across all ministerial portfolios making it difficult to track and assess changes in funding allocations to specific policy priorities and programmes, as well as the proportion of spend on children. Without transparent evidence it is impossible to determine whether the Welsh Government have adhered to their duty of due regard to the UNCRC or whether the principle of the 'best interest of the child' has been applied. A published CRIA would aid openness, transparency and accountability, and enable us to better understand how budgetary decisions are taking account of babies, children and young people and whether allocations are sufficient."*[23]

---

[21] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
[22] Tystiolaeth Ysgrifenedig, WGDB_24-25 38, Plant yng Nghymru (Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home-Start Cymru, The Children's Society, Gwasanaeth Eiriolaeth ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru)
[23] Tystiolaeth Ysgrifenedig, WGDB_24-25 38, Plant yng Nghymru (Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home-Start Cymru, The Children's Society, Gwasanaeth Eiriolaeth ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru)

## Dosbarthu cyllid i'r rheng flaen

**27.** Wrth edrych ar dryloywder dyraniadau a gwariant ar blant a phobl ifanc, rydym yn ymwybodol bod llawer o gyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddosbarthu mewn dyraniadau heb eu neilltuo i fyrddau iechyd a thrwy'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae hyn yn codi heriau sylweddol o ran gweld yr hyn sy'n cael ei wario a monitro canlyniadau i blant. Rydym hefyd yn ymwybodol o sut y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn comisiynu gwasanaethau gan y trydydd sector a hefyd yn dyrannu grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau neu swyddogaethau craidd. Mae natur gyfyngedig o ran amser y dyraniadau hyn ac effaith hynny a ffactorau eraill ar wasanaethau i blant a phobl ifanc wedi'i chodi gyda ni mewn nifer o ymchwiliadau a chyda'r Pwyllgor Cyllid yn ei ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25. Ymdrinnir â'r pryderon hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn ein hadroddiad.

## Cyfuno grantiau a monitro canlyniadau i blant

**28.** Eleni, rydym wedi canolbwyntio rhywfaint o'n gwaith craffu ar y dull parhaus o gyfuno grantiau yn y cyllidebau drafft ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg. O fewn MEG y Gymraeg ac Addysg, mae Llywodraeth Cymru yn cyfuno grantiau unigol a ffrydiau cyllido eraill a arferai fod ar wahân mewn Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd, gwerth £379 miliwn yn 2024-25. Trafodir hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

**29.** O ran tryloywder gwariant, rydym yn ymwybodol, er y gall cyfuno grantiau gynnig hyblygrwydd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ymateb i angen lleol, gall gyflwyno risgiau posibl hefyd, megis heriau o ran gweld tueddiadau ym mha raglenni sy'n cael eu hariannu a pha blant sy'n elwa. Yn y tymor hwy, mae'n bosibl y bydd yn gwneud monitro canlyniadau i blant hyd yn oed yn fwy heriol. Oni bai bod mecanweithiau monitro cadarn ar waith, mae'n bosibl y bydd y cynnydd o filiynau o bunnoedd o arian cyhoeddus yn cael ei wario drwy grantiau cyfunol yn cyfyngu ar y gallu i asesu gwerth am arian ac effeithiolrwydd canlyniadau.

## Costau byw a thlodi plant

**30.** Mae ein ffocws ar werth am arian yn cael ei wella gan y pwysau costau byw presennol a allai, yn ei dro, olygu bod mwy o blant a phobl ifanc yn profi'r canlyniadau negyddol y gwyddom sy'n gysylltiedig â thlodi plant. Mae nifer o'r ymatebion i'r Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb Ddrafft yn codi pryderon ac yn gwneud argymhellion ynghylch effaith costau byw ar blant a phobl ifanc.

**31.** Mae Sefydliad Bevan yn nodi pryder bod nifer o fesurau a gyflwynwyd yn 2022-23 i liniaru'r argyfwng costau byw wedi cael eu tynnu'n ôl yn y flwyddyn bresennol, pan ellid dadlau bod y pwysau'n fwy. Wrth gyfeirio at ei waith ar adroddiad terfynol Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw,[24] mae'n cyflwyno nifer o argymhellion, gan gynnwys:

- Taliadau neu ryddhad i roi arian parod mewn pocedi, gan gynnwys taliad arian parod dros y gaeaf i'r aelwydydd yr effeithir arnynt fwyaf a newidiadau i dapr rhyddhad y dreth gyngor.
- Ymestyn cymhwystra a gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus megis prydau ysgol am ddim, cyflymu darpariaeth tai cymdeithasol a chynyddu cynlluniau inswleiddio cartrefi.
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, grantiau a lwfansau'r DU a Chymru drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu.[25]

**32.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Barnardo's Cymru i'r Pwyllgor Cyllid yn galw am weithredu taliadau uniongyrchol ac ymestyn prydau ysgol am ddim. Croesawodd Barnardo's Cymru y cynnydd yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Fodd bynnag, dywed bod pobl ifanc yn gwario £20 o'r lwfans o £40 ar deithio. Mae'n mynd ymlaen i annog Llywodraeth Cymru i ystyried effaith teithio drud ar bobl ifanc a'r rhieni/gofalwyr sy'n eu cefnogi.[26]

**33.** Mewn cyflwyniad ar ran nifer o sefydliadau plant mawr, dywedodd Plant yng Nghymru wrth y Pwyllgor Cyllid am bryderon am effaith tlodi plant ar iechyd meddwl, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau â gwell adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ac anogodd Lywodraeth Cymru i:

- Ganolbwyntio ar dlodi ac, yn benodol, cynyddu incwm i deuluoedd, a
- Gweithredu taliad uniongyrchol i gefnogi'r rhai sydd ei angen fwyaf.[27]

---

[24] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru ar yr argyfwng costau byw, Medi 2023
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_24-25 49 Sefydliad Bevan
[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_25-25 31, Barnardo's Cymru
[27] Tystiolaeth Ysgrifenedig, WGDB_24-25 38, Plant yng Nghymru (Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home-Start Cymru, The Children's Society, Gwasanaeth Eiriolaeth ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru)

## Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i'r Gweinidogion: dyraniadau i blant

**34.** Yn ystod y sesiwn graffu, gwnaethom drafod gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwyon ystod o faterion yn ymwneud â gallu gweld bod plant yn cael eu cyfran deg o gyllid Llywodraeth Cymru a bod modd gweld canlyniadau o safon o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw.

**35.** Mae maint y gwariant heb ei neilltuo ar iechyd yn faes sydd o ddiddordeb mawr i ni. Nodwn mai'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd yw'r unig un i dderbyn cynnydd yn y gyllideb yn 2024-25, gan fynd ag ef i £11.7 biliwn, a hynny ar ben y dyraniad ychwanegol o £425 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2023-24.[28]

**36.** Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft y llynedd, pwysleisiodd y Gweinidog yn gyson wrthym fod y rhan fwyaf o'r gwariant hwn ar iechyd yn mynd yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd, gan ddweud:

> *"I set some priorities and some guidelines for them to follow, and of course they then have to make sure that they deliver for all people, but that includes children and young people. We don't differentiate for children within that; we don't differentiate for disabled people within that either. So, if you start going down that route, the point is that we could go on for a long, long time, and it's complicated enough as it is."*[29]

**37.** Gwnaethom nodi tystiolaeth Conffederasiwn GIG Cymru cyn y Gyllideb Ddrafft nad yw'n cyfeirio at blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n dweud y bydd lleihau'r ôl-groniad dewisol yn golygu buddsoddiad parhaus dros nifer o flynyddoedd ac mae'n cyfeirio at amryw o ffactorau a oedd yn rhoi pwysau ariannol ar y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diffygion sylfaenol byrddau iechyd sydd wedi eu cario drosodd o flynyddoedd ariannol blaenorol;
- cynnydd mewn costau gweithlu a phwysau chwyddiant;
- heriau capasiti yn y sector gofal cymdeithasol sy'n effeithio'n negyddol ar allu ysbytai i ryddhau cleifion;

[28] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau, 17 Hydref 2023
[29] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 6

- mwy o wariant ar bresgripsiynau gofal sylfaenol a phresgripsiynau ysbyty oherwydd mwy o alw am gyffuriau a chostau cynyddol cyffuriau;
- cynnal a chadw ystadau a seilwaith sydd wedi dyddio sy'n arwain at gostau uwch; ac
- effeithiau parhaus COVID.[30]

**38.** Yng ngoleuni pwysau o'r fath, gwnaethom ofyn a oedd y Gweinidog yn gwbl hyderus y byddai iechyd plant a phobl ifanc yn cael cyfran deg, seiliedig ar dystiolaeth, o ddyraniad craidd y GIG gwerth £9.5 biliwn heb ei neilltuo sy'n mynd yn uniongyrchol i fyrddau iechyd a sut y gallwn asesu effaith hynny ar blant.[31]

**39.** Cyfeiriodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Fframwaith Cynllunio GIG Cymru[32], gan ddweud:

> *"[...] we don't hypothecate within health to any particular groups, but what we do within our planning framework is to make clear that there is an expectation that they have to show to us, when they come up with their plans—which, obviously, we haven't had yet, but we have issued the planning framework to them—that children and young people are ring-fenced within that planning framework. So, we're expecting that to be honoured. Obviously, until we see their plans, we won't be sure, but, as Minister, I can actually reject their plans, if they don't include those."*[33]

**40.** Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, gwnaethom ofyn am eglurder pellach ar y clustnodi gan nad yw hyn yn ymddangos, er enghraifft, yn y rhestr o flaenoriaethau Gweinidogol yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 i 2025. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw'r fframwaith cynllunio blynyddol diweddaraf, a roddwyd i fyrddau iechyd ym mis Rhagfyr 2023, wedi'i gyhoeddi eto.

**41.** Cytunodd y Gweinidog i ddarparu mwy o eglurder yn ysgrifenedig. Mewn ymateb ysgrifenedig dilynol, dywedodd y Gweinidog:

---

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_24-25 42 Conffederasiwn GIG Cymru, Rhagfyr 2023
[31] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 6
[32] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 i 2025, 10 Tachwedd 2021
[33] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 8

*"...ym mharagraff 8 o'r trawsgrifiad, defnyddiais derminoleg a oedd yn nodi bod gwasanaethau plant wedi'u 'clustnodi' o fewn y fframwaith cynllunio. Cafodd hyn ei godi gennych chi eich hun mewn crynodeb ym mharagraff 166 ac mae wedi arwain at gamau penodol yn dilyn y cyfarfod, fel a ganlyn:*

*Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae fframwaith cynllunio'r GIG yn cefnogi neilltuo cyllid ar gyfer plant a phobl ifanc.*

*Er mwyn egluro, nid yw dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u neilltuo o safbwynt cyllido. Roeddwn yn ceisio cyfleu bod disgwyliadau penodol o fewn y fframwaith cynllunio sy'n ymwneud ag ansawdd ac ecwiti gwasanaethau a sut y maent yn effeithio ar wasanaethau plant. Rwy'n awyddus i weld tystiolaeth o'r dulliau sy'n cael eu defnyddio ar draws y meysydd hyn wedi'i nodi yn naratif y cynlluniau tair blynedd."*[34]

**42.** O ran tryloywder gwariant ar draws yr ystod o bortffolios y cabinet, gwnaethom holi eto eleni ynghylch ansawdd yr asesiadau effaith ar y Gyllideb Ddrafft fel y mae'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, pwysleisiodd y Gweinidog na fu gostyngiadau mewn cyllid mewn perthynas â chyllidebau plant a phobl ifanc, a bod gwariant wedi'i gynnal ar eu cyfer.[35] Eto i gyd, gallem weld darlun gwahanol iawn eleni.

**43.** Yn ystod ein gwaith craffu ar y Gweinidog, gwnaethom dynnu sylw at ostyngiadau uniongyrchol mewn cyllid i blant a bod cyllid grant sylweddol ar gyfer plant a fydd yn dod i ben yn 2024-25. Mae'r gostyngiadau'n cynnwys:

- £11.2 miliwn ar gyfer y Cynnig Gofal Plant;
- £3.5 miliwn o'r Bwndeli Babanod;

---

[34] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024
[35] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023

- £0.5 miliwn o'r gyllideb Cyfathrebu â Phlant a Theuluoedd;
- gostyngiad o £0.350 miliwn yng nghyllideb Cymru Iachach (Blynyddoedd Cynnar):
- £7.085 miliwn o Grant Plant a Chymunedau dangosol 2024-25; ac
- £11 miliwn o Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

**44.** Yng ngoleuni'r gostyngiadau hyn mewn gwariant ar blant a'r pwysau ariannol parhaus, gwnaethom holi'r Gweinidog ai nawr yw'r amser i ddechrau cynnal a chyhoeddi Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant manwl yn unol â'r rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Cynllun Hawliau Plant.

**45.** Mewn ymateb, roedd y Gweinidog am ei gwneud yn glir bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflawni ei gofynion deddfwriaethol ar gyfer asesiadau effaith, ond ei bod yn gwneud hynny drwy'r asesiadau effaith integredig strategol. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

> *"We will continue to engage with our budget improvement impact and advisory group in terms of exploring how we can reflect better, perhaps, children's rights in our improvements to budget and tax processes. So, I think we recognise there's probably a bit more work to do in this space and we can do that, but that's the framework within which we're hoping to address that issue."*[36]

**Ein barn ni: Gwariant ar blant**

Eleni, bydd gwariant ar blant yn cael ei leihau neu'n dod i ben mewn nifer o feysydd polisi. Mae yna bwysau ariannol difrifol. Gwyddom fod pwysau chwyddiant yn golygu y bydd yn costio mwy y flwyddyn nesaf i ddarparu'r un gwasanaethau iechyd ag a ddarparwyd yn 2023-24.

Gellir dadlau bod llawer o'r pwysau a amlygir ar iechyd a gofal cymdeithasol yn faterion systemig sy'n canolbwyntio ar oedolion, megis oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn pryderu bod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol plant mewn perygl o gael eu hanwybyddu.

---

[36] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

Rydym wedi dadlau'n gyson dros wariant mwy tryloyw ar blant o ystyried bod mwy na £10biliwn o arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu heb ei neilltuo i fyrddau iechyd. Yn ystod ein cyfarfod, gwnaethom holi'r Gweinidog am yr arian bwrdd iechyd hwn sydd heb ei neilltuo a chawsom wybod bod plant a phobl ifanc wedi'u clustnodi o fewn y fframwaith cynllunio hwnnw.[37]

Mae'n siomedig felly ein bod wedi cael eglurhad, ar ein cais ni, nad yw hyn yn wir. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, yn y llythyr yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog "defnyddiais derminoleg a oedd yn nodi bod gwasanaethau plant wedi'u 'clustnodi' o fewn y fframwaith cynllunio" ond â ymlaen i ddweud "er mwyn egluro, nid yw dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u neilltuo o safbwynt cyllido." Dywedodd hefyd "Roeddwn yn ceisio cyfleu bod disgwyliadau penodol o fewn y fframwaith cynllunio sy'n ymwneud ag ansawdd ac ecwiti gwasanaethau a sut y maent yn effeithio ar wasanaethau plant."[38]

Nodwn hefyd, ers y sesiwn graffu, fod y Gweinidog wedi cyhoeddi ymyriadau uwchgyfeirio pellach mewn byrddau iechyd, sy'n golygu bod dau fwrdd iechyd yn cael ymyrraeth wedi'i thargedu mewn perthynas â chyllid a chynllunio. Ein pryder yw bod ffocws ar anghenion iechyd plant a phobl ifanc yn cael ei gynnal yn ystod y cyfnod heriol hwn.[39]

Gall symud tuag at gyfuno grantiau ar draws gofal cymdeithasol ac addysg ddod â manteision hyblygrwydd lleol o ran gwariant ar blant. Ac eto mae potiau sylweddol o arian Llywodraeth Cymru, megis y Grant Plant a Chymunedau gwerth £174.6 miliwn, lle mae'n ymddangos bod monitro newidiadau a chanlyniadau yn mynd yn fwy heriol bob blwyddyn. Eleni, mae hyn yn cynnwys Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd, gwerth £379 miliwn yn 2024-25. Rhaid rhoi mecanweithiau cadarn ar waith i fonitro canlyniadau.

Rydym wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i wneud pob ymdrech i sicrhau ei bod mor glir â phosibl yn ei Chyllideb Ddrafft faint o adnoddau sy'n cael eu dyrannu ar gyfer plant a phobl ifanc. Unwaith eto eleni, mae'n siomedig gweld nad oes Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân. Yn ein barn ni, pan fydd pwrs y wlad yn dynn, yn fwy nag erioed, rhaid i ni fod yn gadarn wrth sicrhau nad

[37] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[38] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024
[39] Cyfarfod Llawn, Datganiad Llafar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth, 24 Ionawr 2024

yw’r sefyllfa ym maes  iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn taflu hawliau plant a phobl ifanc i’r cysgod. Nid ydym yn derbyn rhesymeg Llywodraeth Cymru nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar wahân. Dyma ein barn ni o hyd yn dilyn y briff technegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ac o ystyried yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 a'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed.

Fel gyda'r rhan fwyaf o MEGs, gofynnwyd i'r Gymraeg ac Addysg ddod o hyd i arbedion er mwyn rhoi cyllid i ddiogelu cyllideb y GIG a chyllideb llywodraeth leol, gyda £103 miliwn wedi'i "ailflaenoriaethu" o'r MEG. Gydag ysgolion yn cynrychioli’r elfen fwyaf o wariant llywodraeth leol, dylai plant a phobl ifanc fod ymhlith buddiolwyr diogelu cyllidebau awdurdodau lleol, er y bydd llawer o'r cynnydd cyfartalog o 3.1% yn mynd tuag at gyflogau athrawon. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid sy’n cael ei ailddyrannu yn mynd i’r GIG, ac rydym eisoes wedi nodi ein pryder am wariant anghymesur ar oedolion yn hyn o beth.

Yn ehangach, mae pob agwedd ar bwrs y wlad o dan bwysau mawr ar hyn o bryd. Er bod monitro effeithiolrwydd gwariant bob amser yn hynod o bwysig, mae hyd yn oed mwy o bwyslais ar hyn yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael iddi, ac yn nodi unrhyw fylchau data, a allai rwystro ei gallu i fonitro effeithiolrwydd gwariant. Mae angen i hyn fynd law yn llaw â'r gallu i ailflaenoriaethu ac ailddyrannu cyllid os nad yw unrhyw brosiectau penodol yn dangos y canlyniadau a ddymunir. Mae hwn yn fater sy'n berthnasol i gyllideb gyfan Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n benodol i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG y Gymraeg ac Addysg yn unig. Nodwn fod pwyllgorau eraill y Senedd wedi gwneud argymhellion tebyg yn galw am fonitro gwariant ariannol yn well, gyda’r Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn eu plith.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gynhyrchu Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, fel y nodir yng Nghynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru ei hun.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn mynd ati i fonitro canlyniadau yn effeithiol yn ystod y flwyddyn yn erbyn gwariant ariannol, a sut y bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i fod yn hyblyg wrth ailflaenoriaethu gwariant ariannol os oes angen pan na fydd y canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu gwireddu.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r manylion am sut y mae'n monitro canlyniadau i blant ar gyfer yr holl raglenni a ariennir drwy'r Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd, a chyhoeddi'r data hwn yn flynyddol.

# 4. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Cefndir a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft

**46.** Mae bron i hanner cyllideb £23.7 biliwn Llywodraeth Cymru wedi ei ddyrannu i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**47.** Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wrth y Pwyllgor Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu'r GIG drwy ddyrannu £450 miliwn yn ychwanegol, a hefyd y setliad llywodraeth leol craidd drwy gynnydd cyfartalog o 3.1%.[40]

**48.** Mae tabl cyllideb manwl ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gyhoeddi. Mae'r MEG yn cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant:

- Yn 2024-25, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r dyraniad ariannol mwyaf o blith yr holl brif grwpiau gwariant
- Cyfanswm y dyraniad refeniw a chyfalaf yw £11,690 miliwn, sy'n gynnydd o 8.6% ers cyllideb derfynol 2023-24 (dyma'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) - y rhan ddewisol o'r gyllideb y mae Llywodraeth Cymru yn dewis sut i'w gwario. Y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) – y rhan annewisol o'r gyllideb – yw £368 miliwn)
- Mae'r DEL sy'n werth £11,690 miliwn yn cynnwys £11,291 miliwn o refeniw a £399m o gyfalaf
- O'r £11,291 miliwn yn y gyllideb refeniw, dyrennir £10,513 miliwn ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG (h.y. yn gyllid uniongyrchol i'r GIG)[41]

## Papur tystiolaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: manylion Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

**49.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), y lefel gyffredinol fwyaf manwl a gyhoeddir. Gwnaethom gais ymlaen llaw

[40] Y Pwyllgor Cyllid, 20 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 11
[41] Llywodraeth Cymru, Cynigion y Gyllideb Ddrafft Manwl 2024-25

am ddadansoddiad pellach o ddyraniadau MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2024-25 fel y maent yn berthnasol i blant a phobl ifanc i lawr i lefel BEL.[42] Darparwyd y tabl isod ym mhapur y Gweinidog:[43]

### Tabl Un: Newidiadau fesul Llinell Gwariant yn y Gyllideb

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 | 2023-24 Cyllideb Atodol Gyntaf | Rhagolygon Alldro P8 2023-24 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m |
| Cymru Iachach – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060 | 7.200 | 7.200 | 6.493 | 6.850 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310 | 100.951 | 99.727 | 88.404 | 82.378* |
| Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311 | 1.020 | 1.020 | 0.920 | 1.020 |
| Cefnogi Plant – BEL 410 | 3.865 | 3.865 | 3.883 | 3.865 |
| Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085 | 11.710 | 11.710 | 5.465 | 5.960* |
| Grant Plant a Chymunedau – BEL 1087 | 171.045 | 172.269 | 171.861 | 174.583* |
| CAFCASS Cymru – BEL 1268 | 15.195 | 15.195 | 15.195 | 15.873 |
| **CYFANSWM** | 310.986 | 310.986 | 292.221 | 290.529 |

**Sylwer – mae elfennau o'r gyllideb yn symud o BEL 310 a BEL 1085 i BEL 1087 yn 24-25 wrth i grantiau symud i'r prif Grant Plant a Chymunedau.*

### Newidiadau yn y dyraniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2024-25

**50.** Mae papur Llywodraeth Cymru hefyd yn disgrifio'r newidiadau fel a ganlyn:

- "Cymru Iachach – (Y Blynyddoedd Cynnar) – BEL 0060 Gostyngiad o £0.350m yn y gyllideb: Cafodd gostyngiad cymesur ei wneud yn y BEL hon fel rhan o'r adolygiad o'r gyllideb a'r ymarfer ailflaenoriaethu a gynhaliwyd yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25. Cafodd yr effeithiau eu hystyried a'u trafod â Gweinidogion. Bydd hyn hefyd yn berthnasol isod lle cyfeirir at 'ostyngiadau yn y gyllideb'.

[42] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 9 Hydref 2023
[43] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023

- Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae - BEL 310 Gostyngiad o £14.7m yn y gyllideb o gyllideb ddangosol 2024-25, sef £99.151m, a throsglwyddiad cyllideb o £2.073m yn y Prif Grŵp Gwariant i BEL 1087 – Grant Plant a Chymunedau. Hefyd mae trosglwyddiad cyllideb wedi'i gynnwys ar gyfer Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 o £1.224m yn symud i'r Grant Plant a Chymunedau ar sail anghylchol. Cafodd y gostyngiad yn y gyllideb ei gwneud o brif linell y gyllideb Cynnig Gofal Plant, £11.2m, llinell y gyllideb Cynlluniau Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar, £3m, a'r gyllideb AGC / GCC a'r Gweithlu, £0.5m.

- Cefnogi Teuluoedd a Phlant – BEL 1085 Gostyngiad o £4 miliwn yn y gyllideb a symudiad cyllideb o £1.1m yn y Prif Grŵp Gwariant i BEL 1087 - Grant Plant a Chymunedau. O ran y gostyngiad o £4m yn y gyllideb, daw £3.5m o Bwndeli Babi a £0.5m o'r gyllideb Cyfathrebu â Phlant a Theuluoedd.

- Grant Plant a Chymunedau - BEL 1087 Gostyngiad o £7.085m o ddyraniad cyllideb ddangosol y Grant Plant a Chymunedau 2024-25 o £178.495m. Trosglwyddiad cyllideb rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o £3.173m o'r Prif Grŵp Gwariant, o BEL 310 a BEL 1085, gyda grantiau'n cael eu hychwanegu at y Grant Plant a Chymunedau mwy, gan olygu mai cyfanswm cyllideb 2024-25 yw £174.583m.

- CAFCASS Cymru – BEL 1268 Cynnydd o £0.678m yn y gyllideb sy'n ymwneud ag addasiad y llinell sylfaen ar gyfer dyfarniad cyflog 2023-24 i staff CAFCASS."

## Iechyd plant

### Iechyd meddwl a llesiant

**51.** Dywedir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru y bydd cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG yn parhau i gael ei glustnodi a bod £800 miliwn wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer hyn. "Mae'r gyllideb hon yn cefnogi gwasanaethau ar draws yr ystod oedran, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed".[44] Fodd bynnag, nodir yn nogfen naratif y gyllideb:

[44] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023

> *"ni allwn gynyddu £15m ar gyllid yn 2024-25 bellach, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Rydym hefyd wedi lleihau swm pellach o £6m ar y gyllideb ganolog bresennol ar gyfer iechyd meddwl."*[45]

**52.** Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at £2.2 miliwn o gyllid blynyddol ar gyfer Gweithrediaeth GIG Cymru i ddatblygu rhaglen strategol ar gyfer iechyd meddwl a rhaglen diogelwch cleifion. Dywed y bydd y gwaith hwn yn parhau i gynorthwyo byrddau iechyd i gyrraedd safonau amseroedd aros yn gynaliadwy ac i leihau amrywiaeth drwy gael manyleb gwasanaeth ar gyfer CAMHS. Mae'n mynd ymlaen i nodi y bydd strategaeth iechyd meddwl ddrafft newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ac y bydd cynllun cyflawni wedi'i gostio yn cyd-fynd â hi a fydd yn cael ei adolygu dros gyfnod y strategaeth.[46]

**53.** Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft y llynedd, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y cyllid iechyd meddwl sydd wedi'i glustnodi a roddir i fyrddau iechyd, a dywedodd, er nad oes swm penodol ar gyfer plant a phobl ifanc, mae disgwyl i fyrddau iechyd gyflawni'r blaenoriaethau a nodir gan Lywodraeth Cymru:

> *"The integrated medium-term plans that all boards have to use have mental health very clearly in there as a priority. There are meetings, a plethora of meetings, between officials, the delivery unit, individual health boards to make sure that the focus is there on delivering on mental health. So, they have to deliver on those priorities.*
>
> *Obviously, we monitor their performance against a whole range of measures. [...] I don't think there's much wriggle room, really, for health boards in terms of not delivering on these priorities. I have been crystal clear that children and young people are my top priority."*[47]

---

[45] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[46] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023
[47] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-97

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a'r Glasoed (CAMHS)

**54.** Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, gwnaethom groesawu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant a oedd yn aros am apwyntiad claf allanol cyntaf CAMHS arbenigol.[48] Nodwn fod data ar StatsCymru yn dangos bod y gwelliant yn amseroedd aros CAMHS ar gyfer apwyntiad claf allanol cyntaf o fewn gofal eilaidd wedi'i gynnal i raddau helaeth. Mae'r ffigurau diweddaraf o fis Tachwedd 2023 yn dangos bod 37 o gleifion wedi aros dros bedair wythnos, o gymharu â 46 ym mis Tachwedd 2022 a 527 ym mis Tachwedd 2021.

**55.** Rydym hefyd yn monitro data StatsCymru ar ddarpariaeth CAMHS o fewn gofal sylfaenol drwy'r amseroedd aros am asesiad Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) ac amseroedd aros am ymyriad therapiwtig. Erbyn mis Medi 2023, gwelwn fod 80.2% o'r asesiadau hyn ar gyfer plant o dan 18 oed wedi cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'w hatgyfeirio. O edrych ar pryd y dechreuodd ymyriadau therapiwtig, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 44.7% o ymyriadau wedi dechrau o fewn 28 diwrnod i asesiad o gymharu â 38% 12 mis ynghynt. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth mawr rhwng byrddau iechyd, yn amrywio o 95% ym Mae Abertawe i 0% yn Aneurin Bevan. Nid yw'r rhesymau dros y gwahaniaeth mawr rhwng byrddau iechyd yn glir.

**56.** Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer asesiad LPMHSS ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed ers i'r data ddod ar gael am y tro cyntaf. Mae'r niferoedd wedi cynyddu o 640 o bobl ifanc o dan 18 oed ym mis Medi 2020 i 1,019 ym mis Medi 2023. Mae rhanddeiliaid yn parhau i godi pryderon bod iechyd meddwl yn gwaethygu ymhlith plant a phobl ifanc yn eu tyb hwy. Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, tynnodd Plant yng Nghymru sylw at effaith tlodi plant ar iechyd meddwl, gan alw am wella adnoddau ar gyfer CAMHS fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael cymorth pan fo angen, a chael mynediad at gymorth adfer hirdymor ar ôl ymyriadau cychwynnol.[49]

[48] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2023-24, Chwefror 2023
[49] Tystiolaeth Ysgrifenedig, WGDB_24-25 38, Plant yng Nghymru (Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home-Start Cymru, Cymdeithas y Plant, Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru)

## Dull ysgol gyfan

**57.** Yn ystod 2023, rydym wedi mynegi pryderon ynghylch cysondeb y dulliau o gefnogi iechyd meddwl dysgwyr ledled ysgolion yng Nghymru, ac i ba raddau mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y dull ysgol gyfan yn cyrraedd y rheng flaen.

**58.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym mai'r cynllun o hyd yw dyrannu'r £13.6 miliwn fel y dangosir yn y dyraniadau dangosol ar gyfer y dull ysgol gyfan yn 2024-25 (£7 miliwn ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £6.6 miliwn ar gyfer MEG y Gymraeg ac Addysg).[50] Mae hyn yn cymharu â llinell sylfaen o £12.4 miliwn ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu gwariant gwirioneddol gan nad oes unrhyw wybodaeth ar gael i'r cyhoedd sy'n darparu dadansoddiad o ddyraniadau i awdurdodau lleol/gwariant gan awdurdodau lleol (ac ysgolion wedi hynny).

## Iechyd corfforol plant

**59.** Prif ffocws ein gwaith craffu ar ddyraniadau'r GIG eleni oedd y 'darlun ehangach' o ddyraniadau'r byrddau iechyd yr ymdrinnir â hwy yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae gennym hefyd ddiddordeb parhaus mewn cyllid ar gyfer iechyd cyhoeddus plant.

**60.** Mae Adroddiad Blynyddol 2023 y Prif Swyddog Meddygol yn tynnu sylw at y ffaith bod bron i un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn dechrau ysgol gynradd dros bwysau neu'n ordew.[51] Yn ôl yn 2022, gwnaethom fynegi pryder nad oedd Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio digon ar atal gordewdra ymhlith plant.[52] Felly, rydym yn parhau i archwilio dyraniadau ar gyfer cyflawni Pwysau Iach Cymru Iach, strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru.

**61.** Dywed papur y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu'r cynllun cyflawni ar gyfer y cyfnod 2024-2026, ac y caiff hwn ei ategu gan gyfanswm o £6.9 miliwn yn 2024-25. Dywedir bod £2.9 miliwn yn cael ei fuddsoddi i barhau i ddarparu'r llwybr rheoli pwysau Cymru Gyfan, a bod £600,000 wedi'i ddyrannu i Iechyd Cyhoeddus Cymru i barhau i gefnogi

---

[50] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 47
[51] Llywodraeth Cymru, Prif Swyddog Meddygol Cymru, Adroddiad Blynyddol 2023
[52] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, Chwefror 2022,

cynlluniau peilot plant a theuluoedd am flwyddyn arall (mae'r rhain ar waith yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn).[53]

**62.** Rydym hefyd yn awyddus i archwilio’r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â’r broblem fepio ymhlith pobl ifanc, a phwy fyddai’n ysgwyddo costau’r ysgogiadau hyn Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gamau gweithredu Llywodraeth y DU ar dybaco a fepio, gan gynnwys y Bil Tybaco a Fepio, a gyhoeddwyd yn Araith y Brenin ym mis Tachwedd 2023, a'i hymgynghoriad ar greu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymysg pobl ifanc, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddadansoddi'r ymatebion, a bod disgwyl i'r ymateb i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi erbyn 18 Ionawr 2024.

## Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i’r Gweinidog: iechyd plant

### Iechyd Meddwl

**63.** Gwnaethom holi ynghylch asesiad Llywodraeth Cymru o'r galw am gymorth iechyd meddwl gan blant a phobl ifanc ac a yw lefel y buddsoddiad yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion hyn. Gwnaethom holi hefyd a yw'r arian y mae byrddau iechyd yn ei gael yn cael ei wario ar blant a phobl ifanc i wella eu hiechyd meddwl, yn hytrach na chael ei sianelu i feysydd eraill o gymorth iechyd meddwl. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wrthym:

> *"… projecting demand is a complex area, but just to assure the committee that we have done lots of work around trying to project demand for mental health services. For example, we had a significant piece of work through the Centre for Mental Health that informed the original budget decisions to prioritise investment in mental health, so the additional £50 million and £75 million that was invested last year. The Welsh Health Specialised Services Committee has also undertaken a piece of modelling work for us as well, and I’m very happy to provide the committee with more information on that when that’s available."*[54]

---

[53] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio’r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023
[54] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

**64.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd wrthym fod gwaith modelu tebyg wedi'i wneud i lywio cyllid i wasanaethau anhwylderau bwyta arbenigol.[55] Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog £2.5 miliwn o gyllid ychwanegol o 2022-23 i helpu i fynd i'r afael ag anhwylderau bwyta, gan ganolbwyntio ar gyrraedd y targed amser aros o 4 wythnos.[56] Fodd bynnag, mae'r elusen anhwylderau bwyta Beat wedi mynegi pryder yn y gorffennol am ddiffyg data gan fyrddau iechyd ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta.[57]

**65.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynlluniau cyflawni wedi'u costio fel y bydd y pwyllgor yn gallu gweld faint o arian sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a bod gwasanaethau anhwylderau bwyta yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.[58]

**66.** Yn dilyn hynny, ar 19 Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad a oedd yn cynnwys ychwanegiadau at ddarpariaeth bediatrig mewn nifer o fyrddau iechyd. Dywedodd hefyd y byddai byrddau iechyd yn mynd ati yn ystod y 12 mis nesaf i archwilio gweithredu "[m]odel gwasanaeth ymyrraeth gynnar a phecyn gofal a dargedir benodol at bobl ifanc 16 i 25 oed, ac sydd wedi eu teilwra ar gyfer y cyfnod datblygu a salwch, ac sydd wedi ei gynllunio i leihau hyd amser anhwylderau bwyta heb eu trin a gwella canlyniadau clinigol."[59]

**67.** O ran cyllid ar gyfer atal hunanladdiad, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> *"… with the new suicide prevention strategy, there will be costed delivery plans when we've brought that work to fruition, so the committee will be able to see more detail on that as far as is possible with something like suicide prevention."*[60]

---

[55] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 55
[56] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 24 Mehefin 2022.
[57] Beat Adolygiad Gwasanaeth Anhwylder Bwyta yng Nghymru: 3 blynedd yn ddiweddarach, Ionawr 2022
[58] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 56
[59] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Gwella Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta Cymru, 19 Ionawr 2024
[60] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 60

**68.** Wrth edrych tuag at ymyrraeth gynnar, gwnaethom ofyn am sicrwydd y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gwario'r arian a ddyrannwyd iddynt ac yn blaenoriaethu'r dull ysgol gyfan o ystyried nad oes gwybodaeth yn y parth cyhoeddus am wariant gwirioneddol.

**69.** Ymatebodd y Dirprwy Weinidog gan ddweud ei bod yn hyderus iawn bod ganddynt y mecanweithiau ar waith i sicrhau eu bod yn parhau i sbarduno newid yn y maes hwn gyda'r cyllid gwarchodedig y maent wedi gallu ei ymrwymo eleni.[61]

## Iechyd corfforol

**70.** Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru'n monitro hyn i ddeall pa gamau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau iechyd hirdymor plant a phobl ifanc. Gwnaethom ofyn hefyd, o ystyried bod traean o blant Cymru dros eu pwysau neu'n ordew erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol gynradd, a yw cyllid ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng rheoli pwysau ac atal gordewdra.

**71.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, er nad oes un ateb syml o ran mynd i'r afael â gordewdra, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer cynlluniau peilot y rhaglen atal diabetes Cymru gyfan ar gyfer plant a theuluoedd ac ar gyfer datblygu llwybr rheoli pwysau Cymru gyfan.

> *"That funding, even despite the very significant financial constraints we've faced, has been slightly increased this year, which I think is good news".*[62]

**72.** Yn olaf, gwnaethom holi am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â fepio ymhlith plant a phobl ifanc. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at nifer o gamau y mae eisoes wedi'u cymryd, megis cyhoeddi canllawiau i ysgolion drwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aeth ymlaen i esbonio:

> *"We are working with the UK Government, which holds many of the levers around vaping and smoking, on the legislation that they are looking to take forward to tackle youth vaping and also to create the first smoke-free generation. That means raising the age for sale of tobacco so that anyone born on or*

[61] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[62] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 65

*after 1 January 2009 would never legally be able to purchase tobacco. We have signed up with the other four nations as part of that consultation—that's a four-nation consultation. That closed on 12 December and the responses are currently being analysed. Details of how we intend to tackle these issues will be announced shortly. If we decide that the tobacco and vapes Bill, which was identified in the King's Speech, will apply to Wales, the cost of the measures will be set out in detail at the appropriate stage of the legislation's development, and we'll provide further updates on that."*[63]

**Ein barn ni: Iechyd plant**

Rydym yn croesawu bod cyllid ar gyfer iechyd meddwl yn parhau i gael ei glustnodi yn y Gyllideb Ddrafft, ond rydym yn parhau i bryderu am lefelau salwch meddwl ymhlith plant a phobl ifanc. Byddwn yn disgwyl i'r strategaeth iechyd meddwl newydd a'r strategaeth atal hunanladdiad newydd a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig ddangos bod camau i wella iechyd meddwl a llesiant plant yn cael digon o flaenoriaeth a buddsoddiad, ac y bydd canlyniadau i blant yn cael eu mesur. Er bod croeso o hyd i'r dull ysgol gyfan, mae'n anodd deall beth sy'n cael ei wario arno ac effeithiolrwydd dilynol y cyllid a ddyrannwyd.

Byddwn yn monitro'r datblygiadau a amlinellir yn natganiad diweddar y Dirprwy Weinidog ynghylch gwasanaeth anhwylderau bwyta arbenigol a'r potensial ar gyfer gwelliannau mawr eu hangen. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith y bydd y strategaeth atal hunanladdiad newydd yn cynnwys trylwyredd cynlluniau cyflawni wedi'u costio.

Mae'n parhau i fod yn destun pryder difrifol i iechyd plant bod bron i un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn dechrau'r ysgol gynradd dros bwysau neu'n ordew. Yn ôl yn 2022, gwnaethom fynegi pryder nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o sylw i atal gordewdra ymhlith plant. Rydym yn croesawu'r ffaith bod cyllid wedi'i gynnal ar gyfer y strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach ac yn gofyn am ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sefydlu fframwaith gwerthuso cyffredinol ar gyfer y strategaeth. Yn y cynllun cyflawni nesaf ar gyfer y strategaeth, rydym yn disgwyl gweld ffocws clir

[63] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 75

ar atal gordewdra ymhlith plant, gan gynnwys camau gweithredu/buddsoddiad wedi'u targedu at deuluoedd a'r blynyddoedd cynnar.

Rydym eisoes wedi mynegi pryderon am broblem sylweddol fepio ymhlith plant a phobl ifanc ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i ddefnyddio pob offeryn sydd ar gael iddi i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'n gadarnhaol gweld cydweithio agos rhwng y pedair gwlad yn hyn o beth.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi i'r Pwyllgor yr adroddiad modelu iechyd meddwl a gynhaliwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru pan fydd wedi'i gwblhau.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud ar strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sefydlu fframwaith gwerthuso cyffredinol ar gyfer y strategaeth.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i'r cynllun cyflawni Pwysau Iach, Cymru Iach nesaf gynnwys ffocws cliriach ar atal gordewdra ymhlith plant, gan gynnwys camau gweithredu a chostau cysylltiedig, a bod wedi'i dargedu at deuluoedd a'r blynyddoedd cynnar.

## Gofal cymdeithasol plant

### Pwysau ariannol ar wasanaethau plant

**73.** Er bod mwyafrif y gwariant cyhoeddus ar ofal cymdeithasol plant, diogelu a phlant â phrofiad o fod mewn gofal yn dod o'r Grant Cynnal Refeniw sy'n rhan o'r MEG Llywodraeth Leol, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ganlyniadau'r grŵp hwn o blant.

**74.** Mae Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2024-25 Llywodraeth Cymru yn golygu y bydd y cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2024-25 yn cynyddu 3.1% ar sail tebyg am debyg o gymharu â'r flwyddyn bresennol. Dywed hefyd fod "cyllid ychwanegol o £1.3m yn cael ei ddarparu i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn cael cynnydd o lai na 2.0%."[64]

[64] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2024-25, 20 Rhagfyr 2023

**75.** Mae tystiolaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ("ADSS") a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLlLC") i'r Pwyllgor Cyllid yn dweud:

> *"The impacts of the cost of living crisis were highlighted as leading to rising pressures on families which has meant that some councils are experiencing increased numbers of children entering care. A number of councils also reported an increase in safeguarding referrals, with one council reporting a doubling of referrals in the past year. The number of child protection investigations being undertaken were also reported as increasing in a number of councils. One council identified a nearly 700% increase between 2018-19 and 2022-23, with others identifying a doubling of investigations."*[65]

**76.** Mae'r papur tystiolaeth hefyd yn nodi dadansoddiad o'r pwysau ariannol ar lywodraeth leol:

| Current year pressures | 2023-24 |
|---|---|
| | £000s |
| Pay Inflation pressures | 5,281 |
| Non pay inflation pressures | 3,866 |
| Commissioning cost pressures | 13,201 |
| Demand related pressures - Adults | 45,683 |
| Demand related pressures – Children's | 40,730 |
| | |
| **Overall Total** | **£108,761** |

Source: WLGA/SWT Survey September 2023

**77.** Mae CLlLC ac ADSS yn mynd ymlaen i ddweud:

> *"...Weekly costs in excess of £20,000 per week for placements were identified and one local authority reported that their children's services budget has increased by £11m (56%) over the last 3 years, with specialist placement costs increasing by £6.6m (44%) over the same period."*[66]

[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_24-25 51, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rhagfyr 2023
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 24-25 51, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rhagfyr 2023

## Effaith gostyngiadau yn y gyllideb ar ddarpariaeth y trydydd sector

**78.** Gwyddom fod y Pwyllgor Cyllid wedi clywed gan randdeiliaid cyn y Gyllideb Ddrafft am yr angen i symud i ffwrdd oddi wrth gyllid ad-hoc a byrdymor i'r sector gwirfoddol. Dywedodd Barnardo's Cymru fod rhaid cael cyllid cynaliadwy ar gyfer cymorth hanfodol i fudiadau gwirfoddol Cymru drwy grantiau amlflwyddyn, heb gyfyngiad, hyblyg.[67]

**79.** Er y gallai'r cyllid hwn fod o feysydd polisi megis tai, rydym wedi clywed pryderon y gallai penderfyniadau cyllido mewn MEGs eraill arwain at ganlyniadau anfwriadol ehangach a thymor hwy i ofal cymdeithasol plant a phobl ifanc.

**80.** Yn ôl cyflwyniad Llamau i'r Pwyllgor Cyllid, "heb godiad i'r Grant Cynnal Tai am y flwyddyn ariannol 2024/25, mae perygl gwirioneddol y bydd gwasanaethau'n dymchwel, yr agenda ymyrraeth gynnar yn cael ei cholli". Mae'n mynd ymlaen i ddweud, "yn ogystal, mae comisiynwyr eisoes yn dweud wrthym fod ymyrraeth gynnar, atal, a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen dan fygythiad wrth iddynt ganolbwyntio ymdrechion ar wasanaethau argyfwng." Mae'n cyfeirio at gyfryngu sy'n atal y berthynas deulu rhag chwalu, gan arbed dros £27,000 y person mewn costau llety â chymorth arbenigol.[68]

## Plant â phrofiad o fod mewn gofal

**81.** Ar ein cais ni, roedd papur y Gweinidog yn cynnwys dadansoddiad blynyddol o sut y mae ymrwymiad ariannol y Rhaglen Lywodraethu o £68 miliwn i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal fel a ganlyn:

Dadansoddiad Blynyddol o £68m

| | |
|---|---|
| 2022/23 | £13m |
| 2023/24 | £26m |
| 2024/25 | £29m |

**82.** Mae papur ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn mynd ymlaen i ddweud:

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB 24-25 31, Barnardo's Cymru
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyflwyniad Llamau cyn Cyllideb Ddrafft 2024-2025, Rhagfyr 2023

> *"Yn 2022-23 gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau tair blynedd am gyllid (2022/23-2024/25) i'w helpu i gyflawni'r ymrwymiad i ddileu elw a'u helpu i leihau nifer y plant mewn gofal a chefnogi plant sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd.*
>
> *Cafodd y ceisiadau hyn eu hasesu gan swyddogion a'u defnyddio i bennu dyraniad y £68m dros y tair blynedd i awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y ceisiadau'n canolbwyntio'n glir ar adeiladu darpariaeth gofal preswyl a maeth mewnol neu nid-er-elw, ar symud plant allan o ofal preswyl yn ôl i leoliad teulu, ar ddarparu gwasanaethau lleol ac wedi'u dylunio, gan gynnwys darpariaeth arbenigol i blant ag anghenion mwy cymhleth ac, yn anad dim, ar wella canlyniadau i blant."*[69]

**83.** Yn dilyn sesiwn graffu ar ddiwygio radical ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023, gofynnodd y Pwyllgor i'r Dirprwy Weinidog am amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys yr amcangyfrif cyfredol o nifer y plant o awdurdodau lleol Cymru sydd mewn lleoliadau annibynnol/preifat yng Nghymru.[70]

**84.** Adroddodd Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ganlynol fel ag yr oedd ar 30 Mehefin 2023:

| Wedi'u lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol | Wedi'u lleoli gyda darparwyr preswyl annibynnol | Cyfanswm |
|---|---|---|
| 1284 | 596 | 1880 |

## Gofal Plant a Dechrau'n Deg

**85.** Mae mynediad at addysg a gofal yn ystod plentyndod cynnar yn hanfodol. Mae'n cefnogi datblygiad plant a gall helpu i fynd i'r afael â thlodi plant drwy alluogi mwy o rieni i weithio. I'r perwyl hwn, rydym wedi gwneud cyfraniad parhaus at waith pwysig Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y

[69] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023
[70] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Hydref 2023

Senedd ym meysydd tlodi plant[71] a gofal plant.[72] Rydym yn nodi barn Oxfam Cymru a'r Glymblaid Gwneud Gofal yn Deg sy'n dweud:

> *"Er bod camau breision wedi'u cymryd o ran darpariaeth gofal plant ac addysg gynnar yng Nghymru, mae'r her barhaus o sicrhau mynediad syml, teg at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn parhau i fod yn bryder difrifol."*[73]

**86.** Yn ei Naratif ar y Gyllideb Ddrafft 2024-25, dywed Llywodraeth Cymru:

> *"Roedd Cyllideb Wanwyn Llywodraeth y DU yn cynnwys £178m yn ychwanegol ar draws 2023-24 a 2024-25 i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys £139.4m yn ychwanegol mewn adnoddau a £0.7m mewn cyfalaf yn 2024-25.*[74]

**87.** Yn ôl erthygl gan y BBC am gostau gofal plant:

> *"Welsh ministers said they would be "carefully analysing the impact of the UK Spring Budget on our finances," and that £180m in consequential funding would be allocated "in line with our priorities for Wales in the normal way."*[75]

**88.** Gofynnodd llythyr gan y Pwyllgor Deisebau i ni ystyried y materion a godwyd mewn dwy ddeiseb sy'n cymharu gofal plant yng Nghymru a Lloegr fel rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb.[76]

**89.** Mae papur y Gweinidog cyn y Gyllideb Ddrafft yn dweud:

- "Mae dros £76m yn cael ei ddyrannu i raglen Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae hyn yn cynnwys prif grant y Cynnig Gofal Plant, Grant Gweinyddu Awdurdodau Lleol, Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant, a

---

[71] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Amser rhoi diwedd ar dlodi plant: sut y gall Cymru wneud yn well, Tachwedd 2023
[72] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Gofal plant - ymchwiliad dilynol Ionawr 2024
[73] Ymchwil y Senedd, Gofal plant yn cael sylw yn y Senedd, Ionawr 2024
[74] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[75] Newyddion BBC Cymru Childcare costs: What help is there for parents in Wales? - BBC News Diweddarwyd 15 Awst 2023
[76] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 19 Rhagfyr 2023

chostau rhaglenni digidol a mewnol. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua £11m o gyllideb 2023-24

- Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd 22/23, rhoddwyd cymorth i 675 o deuluoedd ychwanegol oherwydd bod y Cynnig wedi'i ehangu i gynnwys rhieni cymwys sydd mewn addysg/hyfforddiant. Mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant yn cael eu hariannu o fewn prif grant y Cynnig Gofal Plant. Oherwydd y ffordd y mae'r data a'r wybodaeth fonitro'n cael eu datblygu o dan y System Ddigidol Genedlaethol, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl dadgyfuno'r costau hyn o gyfanswm grant y Cynnig Gofal Plant.

- Mae'r cyfraddau defnydd presennol yn adlewyrchu tua 55% o rieni cymwys, ac mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyflawni'r holl rwymedigaethau presennol a pharhau i hybu defnydd, gan annog rhagor o rieni cymwys i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt."[77]

**90.** O ran Dechrau'n Deg, mae papur y Gweinidog yn cyfeirio at y Grant Plant a Chymunedau (CCG) ac yn dweud:

- "Y gyllideb ar gyfer y Grant yn 2024-25 yw £174.583m. O hyn, mae £142.028m yn Gyllid Hyblyg ar gyfer wyth rhaglen, gan gynnwys cynnig craidd Dechrau'n Deg.

- Yn 2024-25 byddwn yn buddsoddi £32.555m i ehangu Dechrau'n Deg. Bydd £24.3m ohono'n helpu dros 5,200 o blant ychwanegol i gael gafael ar ofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd uchel i gefnogi effeithiau cadarnhaol hirdymor ar fywyd y plant a'r teuluoedd hynny ledled Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf

- O ran gofal plant Dechrau'n Deg, fel rhan o'n Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer pob plentyn dwyflwydd oed ledled Cymru."[78]

---

[77] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023
[78] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023

## Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i'r Gweinidogion: Gofal cymdeithasol plant

### Pwysau ar wasanaethau plant

**91.** Mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwasanaethau plant awdurdodau lleol, gwnaethom godi gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol fod CLlLC wedi rhybuddio mai mater o amser yw hi cyn i awdurdod lleol yng Nghymru fynd yn fethdalwr. Gwnaethom dynnu sylw at ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid sy'n dweud bod £41 miliwn o orwariant y flwyddyn bresennol o £219 miliwn yn deillio'n uniongyrchol o'r pwysau cyllido presennol ym maes gofal cymdeithasol plant. Mae CLlLC ac ADSS hefyd yn cyfeirio at y cynnydd parhaus yn nifer y plant sydd angen gofal ac amddiffyniad.[79] Gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog beth all hi ei wneud a beth y mae hi'n ei wneud i sicrhau bod y gwasanaethau rheng flaen i amddiffyn plant yn gallu ymdopi â'r pwysau ariannol hwn, yn enwedig o ystyried bod gan y Gweinidog gyfrifoldeb dros wasanaethau cymdeithasol plant ond nad oes ganddi unrhyw reolaeth dros y cyllidebau.

**92.** Ymatebodd y Dirprwy Weinidog gan gyfeirio at y cynnydd o 3.1% yn y cyllid i lywodraeth leol, a dywedodd:

> *"… we have every confidence that local authorities will put children's needs high up on their agenda, as they always have. It's unhypothecated, it's going up, and so I think we've got confidence that the services will continue."*[80]

**93.** Nodwn hefyd fod cynrychiolwyr llywodraeth leol wedi esbonio, ym Mhwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd, eu bod yn gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n dod i mewn ac angen lleoliadau, gan fynd ymlaen i ddweud bod hynny fel arfer yn golygu £0.5 miliwn y flwyddyn i bob plentyn, yn y man lleiaf. Aethant ymlaen i ddweud bod ganddynt, fel arweinwyr awdurdodau lleol, ddisgwyliad i setlo cyllidebau cytbwys a bod hynny'n rhwymedigaeth gyfreithiol iddynt fel cyngor.'[81]

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_24-25 51, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rhagfyr 2023
[80] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 18
[81] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 100-102

## Cyllid y trydydd sector

**94.** Yn seiliedig ar y pryderon sylweddol a godwyd gyda ni am gyllid y sector gwirfoddol, gwnaethom ofyn a allai'r Dirprwy Weinidog gynnig sicrwydd yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ac a oes unrhyw beth ymarferol y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i wella sefydlogrwydd a mynd i'r afael â natur fyrdymor cyllid ar gyfer y sector plant.

**95.** Gwnaethom holi hefyd ynghylch y £2.9 miliwn sydd i'w wario ar blant a phobl ifanc o dan flwyddyn olaf y Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn 2024-25, gyda llawer ohono'n ymwneud â gwasanaethau i atal plant rhag mynd i mewn i ofal. Yn ôl cyflwyniad ar y cyd gan elusennau plant cyn Cyllideb Ddrafft 2024-25, bydd dileu'r grant hwn a chanolbwyntio ar gyllid byrdymor sy'n seiliedig ar brosiectau yn lleihau effeithiolrwydd a manteision hirdymor prosiectau sefydledig ac yn rhoi straen ychwanegol ar sefydliadau'r trydydd sector o safbwynt cyllid ac adnoddau.[82] Gwnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog am unrhyw sicrwydd o ran cyllid ar gyfer y prosiectau hynny yn y dyfodol y tu hwnt i 2024-25.

**96.** Mae papur y Gweinidog hefyd yn cyfeirio at £506,000 o gyllid o'r Gronfa Newid ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn 2024-25 ar gyfer cyflwyno cymorth eiriolaeth proffesiynol, annibynnol i rieni y mae eu plant ar ffiniau gofal. Cyfanswm y cyllid sydd wedi ei ddyrannu i'r ymrwymiad hwn ar draws y pedair blynedd rhwng 2022/23 a 2025/26 yw £1,606,400.[83]

**97.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd o ran blaenoriaethu'r gwasanaethau rheng flaen, a'u bod wedi dewis peidio â gwneud unrhyw doriadau i'w grantiau trydydd sector. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"We've already undertaken multiple-year grant funding arrangements with the third sector, for example, through the three-year sustainable social services third sector grant, which is one of our main ways of funding the voluntary sector. And that was extended to five years, of course, because of COVID, so*

---

[82] Tystiolaeth Ysgrifenedig, WGDB_24-25 38, Plant yng Nghymru (Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home-Start Cymru, Cymdeithas y Plant, Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru)
[83] Llywodraeth Cymru, Gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-2025 gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Rhagfyr 2023

> *we've had five years for those projects. They will be coming to an end in 2024-25—that will be their last year—and we'll be looking to see what we can do in order to continue that sort of level of support after that year."*[84]

**98.** Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl at ymarfer a gynhaliwyd lle gwnaethant asesu gwariant byrddau iechyd ar gymorth y trydydd sector ar gyfer iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol, a dywedodd eu bod yn mynd i ailadrodd yr ymarfer hwnnw, oherwydd eu bod yn credu ei bod yn bwysig iawn eu bod yn monitro'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.[85]

**99.** Wrth edrych ar wariant ataliol ac effeithiau trawsbortffolio, gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog i ba raddau roedd hi'n pryderu, yn y tymor hir, mai'r portffolio gofal cymdeithasol fydd yn talu'r pris am y gostyngiadau cyllid termau real ym mhortffolios eraill y cabinet, er enghraifft, y Grant Cymorth Tai sefydlog. Roeddem eisiau deall beth, os unrhyw beth, y gall Llywodraeth Cymru ei wneud yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni i helpu i gynnal y ffocws ar wariant ataliol hanfodol ac atal cylch o reoli argyfyngau mewn gwasanaethau plant maes o law.

**100.** Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y bwrdd goruchwylio Gweinidogol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant sydd ag amrywiaeth o Weinidogion yn mynychu ac sy'n cael ei gyd-gadeirio gan y Prif Weinidog. Aeth ymlaen i ddweud bod angen parhau â'r cyllid ataliol hwnnw neu, fel arall, rheoli argyfyngau y byddent yn ei wneud yn y pen draw.[86]

## Dileu Elw

**101.** Gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am bryderon ADSS a CLlLC fod yr ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal eisoes yn cael effaith andwyol ar argaeledd lleoliadau i blant mewn gofal.[87] Mae elusennau plant wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i sicrhau bod dileu elw o ofal cymdeithasol plant yn cael ei wneud mewn ffordd mor ddiogel â phosibl.[88]

---

[84] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 24
[85] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 35
[86] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 40
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_24-25 51, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Rhagfyr 2023
[88] Tystiolaeth Ysgrifenedig, WGDB_24-25 38, Plant yng Nghymru (Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NSPCC Cymru/Wales, Home-Start Cymru, Cymdeithas y Plant, Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid (NYAS) Cymru, TGP Cymru a Gweithredu dros Blant Cymru)

**102.** Ymatebodd y Dirprwy Weinidog nad oes ganddynt unrhyw dystiolaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru fod y polisi hwn yn cael effaith niweidiol ar leoedd o fewn y system.[89] Gwnaethom ofyn a allai dyrannu yn 2024-25 y £29 miliwn o gyllid sy'n weddill ar gyfer dileu elw i'r 22 awdurdod lleol yn unigol danseilio'r dull o ddatblygu lleoliadau rhanbarthol a chenedlaethol. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at ffrwd bolisi o dan y bwrdd i ddileu elw i ddatblygu darpariaeth ranbarthol.[90]

**103.** O edrych ar wariant Llywodraeth Cymru ar ddileu elw, roeddem hefyd am ystyried maint yr elw sy'n cael ei wneud gan y sector preifat. Rydym yn nodi bod adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i farchnad gofal cymdeithasol plant yn nodi bod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yng Nghymru yn 2022 wedi costio tua £350 miliwn.[91]

## Y Gweithlu Gofal Cymdeithasol Plant

**104.** Yng ngoleuni ein pryderon parhaus am gadernid y gweithlu gofal cymdeithasol plant, gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am y gostyngiad o £11 miliwn yn y grant gweithlu gofal cymdeithasol. Yn ystod y gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft yr adeg hon y llynedd, dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn cadeirio cyfarfodydd i fynd i'r afael â'r defnydd o staff asiantaeth drud.[92] Gwnaethom ofyn am ddiweddariad am welliannau yn y defnydd o staff asiantaeth ac a fu gwelliannau mewn cyfraddau swyddi gwag mewn gofal cymdeithasol plant.

**105.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod nifer staff y gweithlu gwasanaethau plant wedi cynyddu a bod y data'n dangos 89 aelod ychwanegol o'r gweithlu cofrestredig rhwng mis Medi 2022 a mis Medi 2023. Mewn perthynas â gweithwyr asiantaeth, dywedodd fod 22 o weithwyr asiantaeth wedi trosglwyddo i fod yn weithwyr cymdeithasol parhaol, a'i bod yn teimlo bod hynny'n ddatblygiad cadarnhaol iawn.

> *"So, in response to the issues that the committee have raised before, I think that we are moving in the right direction, although obviously we would like it to be more and we're*

[89] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[90] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 102
[91] Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Children's Social Care Market Study Final Report, 22 Mawrth 2022
[92] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 123

> *working for it to be more. And a formal review of the programme, including final data collection, is currently taking place, and that should be available by the end of January. So, I'm really pleased, really, that this work has been undertaken and that the situation is improving."*[93]

## Gofal Plant, Dechrau'n Deg a'r Grant Plant a Chymunedau

**106.** Gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am newidiadau i'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad o £7.085 miliwn mewn dyraniadau a gynlluniwyd yn 2024-25 ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau. Y grant cyffredinol fydd £174.6 miliwn ac mae tua £142 miliwn o hynny'n cynnwys wyth rhaglen gyflawni, gan gynnwys Dechrau'n Deg.

**107.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod hynny'n rhan o'u hymrwymiad i lywodraeth leol i geisio lleihau'r baich gweinyddol, a dyna pam eu bod yn cyfuno rhai grantiau.[94]

**108.** Gan symud ymlaen at gyllid ar gyfer gofal plant, gwnaethom holi'r Dirprwy Weinidog am ostyngiad arfaethedig o £11.2 miliwn mewn dyraniadau ar gyfer gofal plant oherwydd nad oes digon yn manteisio arno. Gwnaethom holi hefyd am y £140 miliwn o gyllid canlyniadol Barnett ar gyfer gofal plant yn 2024-25. Yn benodol, pa sylwadau uniongyrchol a wnaed ar lefel y Cabinet ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyfanswm hwn o £152 miliwn ar blant ac na fyddai effaith y gostyngiad o £7.1 miliwn yn y CCG yn disgyn yn anghymesur ar blant o ystyried y ffaith ei fod ar gyfer pobl o bob oedran.

**109.** Mae cymariaethau wedi'u gwneud rhwng y cynigion gofal plant am ddim yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn dilyn ymrwymiad gan Lywodraeth y DU yn gynharach yn 2023 i ddarparu gofal plant am ddim i blant rhieni sy'n gweithio ac sy'n gymwys o 9 mis oed ymlaen erbyn 2025. Fodd bynnag, gwrthododd y Prif Weinidog y feirniadaeth a chyfeiriodd at y ffaith bod rhywfaint o ddarpariaeth eisoes ar waith yng Nghymru, gan ddweud mai'r hyn a welir yn Lloegr yw ymgais i ddal i fyny â gwasanaethau sydd eisoes ar gael yma yng Nghymru, ac nid y gwrthwyneb.[95]

---

[93] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[94] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 119
[95] Cyfarfod Llawn, 21 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

**110.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion wrthym fod y nod o ymestyn Dechrau'n Deg i 9,500 yn fwy o blant erbyn diwedd 2024-25 ar y trywydd iawn. O ran y Cynnig Gofal Plant, mae nifer y rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant wedi cynyddu o 200 i 1,100 mewn blwyddyn. O ran cymariaethau â’r ddarpariaeth yn Lloegr, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> *“…it would be wonderful to extend provision from nine months upwards, but we'll see how that turns out in England. But, basically, what we're doing here is working with the sector, because there are shortages of staff, and the development is not straightforward. We're working very closely with the sector, and I do think that it's going very well, the expansion. I did speak to somebody who's in an organisation that covers the whole of the UK yesterday and was saying that they're running up against huge problems in England because of the shortage of staff, and really that they're very, very nervous about what is actually going to happen with the planned expansion in England."*[96]

**Ein barn ni: gofal cymdeithasol plant**

Rydym wedi clywed ei fod yn gyfnod ansicr i ddarparwyr y trydydd sector. Mae’r galwadau arnynt yn cynyddu wrth i’r pwysau ar blant a’u teuluoedd gynyddu. Mae penderfyniadau cyllidebol ar draws portffolios y cabinet yn debygol iawn o fod â chanlyniadau anfwriadol hirdymor i ofal cymdeithasol plant a phobl ifanc. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei phwerau i gefnogi a chyfathrebu'n effeithiol â'r trydydd sector yn hyn o beth. Mae dod â'r dyfarniadau grant i ben yn 2024-25 o dan y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn bryder mawr. Gwnaethom weithredu'n gyflym i gyfleu ein pryderon ynghylch cau'r cynllun peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol a byddwn yn parhau i wrando ar randdeiliaid a monitro'n ofalus yr effaith ar blant.

Rydym yn parhau i fod yn bryderus iawn ynghylch natur fregus y gweithlu mewn gwasanaethau cymdeithasol plant rheng flaen, ac felly'r gostyngiad o £11 miliwn yn y grant gweithlu gofal cymdeithasol. Mae pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhieni geni wedi dweud wrthym dro ar ôl tro am y niwed y gellir ei wneud pan fo gweithwyr cymdeithasol o dan bwysau. Rydym yn glir y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo'r

[96] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 131

uchafswm llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Yn ein hadroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal, dywedon ni hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddechrau ymgynghori ar gynllun digonolrwydd gweithlu cynhwysfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth ar uchafswm llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant.[97] Byddwn yn parhau i bwyso am weithredu'r argymhellion hyn cyn gynted â phosibl. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol.

Yn seiliedig ar yr uchelgeisiau datganedig hyn, nid ydym yn dwyn llawer o gysur o'r adroddiadau o gynnydd o 89 aelod yn y gweithlu cofrestredig (pan oedd y cyfraddau swyddi gwag diweddaraf a gofnodwyd yn 639) a 22 o weithwyr asiantaeth yn trosglwyddo i fod yn weithwyr cymdeithasol parhaol pan wyddom fod canrannau yn 17% o leiaf. Er ei fod yn cael ei groesawu, nid yw'r newid hwn yn ddigon ac mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fynd ati ar frys i wneud mwy.

Rydym wedi nodi'r newidiadau i'r Grant Plant a Chymunedau ac yn cydnabod bod tua £142 miliwn o hynny'n cynnwys wyth rhaglen gyflawni i blant, gan gynnwys Dechrau'n Deg. Mae ein pryderon am gyfuno rhagor o grantiau wedi'u nodi yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 7.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ysgrifenedig i ni yn manylu ar ei chynllun cyfathrebu â'r rhai sy'n derbyn y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy fel y mae'n ymwneud â phlant sydd i fod i ddod i ben yn 2024-25.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi copi i ni o'r asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar y penderfyniad i leihau Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol £11 miliwn.

**Argymhelliad 9.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i ni am ei hamcangyfrif diweddaraf o'r gost a'r elw dilynol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol plant preifat yng Nghymru y mae'n ceisio mynd i'r afael â nhw drwy'r darpariaethau dileu elw yn y Bil Gofal Cymdeithasol.

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun manylach nag sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer trosglwyddo 1,880 o blant a phobl ifanc allan o leoliadau annibynnol erbyn 2026.

---

[97] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Os nad nawr, pryd? Mai 2023

# 5. Y Gymraeg ac Addysg

## Newidiadau i MEG y Gymraeg ac Addysg

### Cefndir a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft

**111.** Yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25, mae Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg yn cynnwys:

- £2.237 biliwn (£2,237,198,000) o gyllid adnoddau (refeniw); a
- £348 miliwn (£348,402,000) o gyllid cyfalaf.

**112.** Mae'r Prif Grŵp Gwariant drafft cyllid adnoddau y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2024-25 yn cynnwys £95 miliwn (4.1%) yn llai na'r hyn a gynlluniwyd yn y gyllideb ddangosol. Cyfrifir ar gyfer hyn drwy £103 miliwn o ostyngiadau i linellau cyllideb fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu i ddiogelu cyllid ar gyfer y GIG a llywodraeth leol ac £8 miliwn sydd wedi dod i mewn o gronfeydd wrth gefn. Bu hefyd £380 miliwn o drosglwyddiadau rhwng llinellau cyllideb o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg (sydd yn cael effaith sero net ar gyfanswm gwerth y Prif Grŵp Gwariant). Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfuno grantiau a ffrydiau cyllido a oedd yn arfer bod ar wahân i ffurfio'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (cyn 16) newydd.

**113.** Mae Prif Grŵp Gwariant drafft cyllid cyfalaf y Gymraeg ac Addysg £7.2 miliwn (2.0%) yn llai na'r hyn y cynlluniodd Llywodraeth Cymru ei wario yn 2024-25 wrth bennu Cyllideb Ddangosol 2024-25 ym mis Chwefror 2023.

**114.** Fodd bynnag, o gymharu â chyllideb 2023-24, mae adnoddau'r Gymraeg ac Addysg fel a ganlyn:

- £33 miliwn (1.4%) yn llai nag yng Nghyllideb Derfynol 2023-24 (a bennwyd ym mis Chwefror);
- £71 miliwn (3.1%) yn llai nag yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 (a bennwyd ym mis Mehefin);

- £42 miliwn (1.9%) yn fwy na'r addasiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ym mis Hydref[98] (i'w gweithredu yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24 ym mis Chwefror).[99]

**115.** O gymharu â 2023-24, mae cyfalaf y Gymraeg ac Addysg fel a ganlyn:

- £24 miliwn (6.4%) yn llai nag yng Nghyllideb Derfynol 2023-24 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2023-24;
- £16 miliwn (4.9%) yn fwy na'r addasiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ym mis Hydref (i'w gweithredu yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24 ym mis Chwefror).[100]

## **Papur tystiolaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**:

**116.** Yn ei bapur tystiolaeth, dywedodd y Gweinidog y bu'n rhaid i'w adran, fel adrannau eraill ar draws Llywodraeth Cymru, nodi cyllid y gellid ei ryddhau i gynorthwyo â phwysau trawslywodraethol - sef y GIG a llywodraeth leol (sy'n cyllido cyllidebau craidd ysgolion). Roedd disgwyl i'r cyllid oedd i'w flaenoriaethu fod yn gymesur â maint cyllideb yr adran, sydd wedi arwain at £103 miliwn o gyllid adnoddau y Gymraeg ac Addysg (5.7% o'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25) yn cael ei ailflaenoriaethu.

**117.** Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> *"O fewn y portffolio Addysg, rydym wedi diogelu cyllidebau addysg ôl-16 cymaint â phosibl, sydd wedi golygu bod dewisiadau anodd*
>
> *wedi'u gwneud i ailffocysu cyllid o addysg bellach ac addysg uwch, gan gynnwys ein cyllideb seiliedig ar alw ar gyfer cymorth i fyfyrwyr."* [101]

---

[98] Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol newidiadau i gyllidebau 2023-24 yn ystod y flwyddyn ym mis Hydref 2023, yn bennaf i ddarparu cyllid ychwanegol i'r GIG a Trafnidiaeth Cymru. Bu gostyngiad o £74.7 miliwn yn adnoddau'r Gymraeg ac Addysg a £40 miliwn yng nghyfalaf y Gymraeg ac Addysg. Nid yw'r newidiadau hyn i'r gyllideb wedi'u gwneud yn ffurfiol eto ond byddant yn cael eu cynnig yn yr ail Gyllideb Atodol ym mis Chwefror. Rhoddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddadansoddiad llawn o'r gostyngiadau o £74.7m mewn adnoddau yn ystod y flwyddyn mewn llythyr atom ar 23 Ionawr.
[99] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[100] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[101] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg, Rhagfyr 2023

## Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i'r Gweinidog: Newidiadau i MEG y Gymraeg ac Addysg

**118.** Gofynnon ni i'r Gweinidog sut yr aeth ati i nodi meysydd yn ei gyllideb lle gellid ailflaenoriaethu cyllid, yn unol â'r disgwyliad a osodwyd ar holl gyllidebau Llywodraeth Cymru. Esboniodd fel a ganlyn:

> *"The consistent principle, which I hope I've been able to apply, is that we would do everything we could to protect pre-16 education settings, and to focus funding, as far as we possibly could, on improving standards. That has inevitably meant that other parts of the budget, therefore, carry a larger part of that burden, necessarily, unfortunately. But just over half of it, actually, has been found from demand-led budgets, and the heavy lifting there is done by the student support budget…".*[102]

**119.** Dywedodd y Gweinidog na fyddai gostyngiadau i gyllidebau seiliedig ar alw, er enghraifft, cymorth i fyfyrwyr, yn effeithio ar hawl unigolion i wneud hawliad. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailragamcanu lefel y galw ond, fel y cydnabu'r Gweinidog, mae'n ddull sy'n peri risg. Dywedodd os ydyw'n anghywir ar hynny, yna mae'n amlwg y bydd canlyniadau yn y gyllideb.[103]

**120.** Gwnaethom ofyn hefyd i'r Gweinidog gadarnhau, er bod Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn llai na lefel 2023-24, wrth ystyried naill ai'r Gyllideb Derfynol a osodwyd ym mis Chwefror neu'r Gyllideb Atodol gyntaf a osodwyd ym mis Mehefin, ei bod yn uwch na lefel 2023-24 fel y mae ar hyn o bryd ar ôl y gostyngiadau yn ystod y flwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Heb wybod a oes unrhyw newidiadau eraill yn yr arfaeth yn ail Gyllideb Atodol 2023-24 ym mis Chwefror, rydym yn cyfrifo bod cyllideb Adnoddau Ddrafft y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2024-25 £42 miliwn yn uwch nag yn 2023-24 ar ôl cyfrif am y newidiadau yn ystod y flwyddyn a £33 miliwn yn is na'r Gyllideb Derfynol a £71 miliwn yn is na'r Gyllideb Atodol gyntaf.[104]

**121.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod cyllideb adnoddau 2024-25 yn uwch na 2023-24 ar ôl ystyried gostyngiadau mis Hydref, ond dywedodd fod hyn £15

---

[102] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 9
[103] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10
[104] Mae hyn yn seiliedig ar y ffigurau canlynol: Cyllideb Ddrafft 2024-25: £2.237 biliwn; Cyllideb Derfynol 2023-24: £2.270 biliwn; Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24: £2.309 biliwn; a Dyraniad Diwygiedig 2023-24 (Hydref 2023): £2.195 biliwn.

miliwn yn uwch yn hytrach na'r gwahaniaeth o £42 miliwn a gyfrifwyd o'r hyn a gyhoeddwyd ym mis Hydref.[105]

**122.** Dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod wedi cymhwyso'r un egwyddorion i benderfyniadau ynghylch pa gyllidebau i ddod o hyd i arbedion ohonynt yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 i'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn yn 2023-24. Mae cyllidebau seiliedig ar alw, megis cymorth i fyfyrwyr, wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith caled eto, fel y dywedodd y Gweinidog.[106]

### Ein barn ni: Newidiadau i MEG y Gymraeg ac Addysg

Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ceisio cyfyngu'r niwed o'r gostyngiad yn yr arian sydd ar gael iddo, a hynny yn ystod y flwyddyn yn 2023-24 ac wrth bennu Cyllideb Ddrafft 2024-25, drwy wneud arbedion mewn cyllidebau seiliedig ar alw. Fel y cydnabu, daw hyn â risg y gallai amcanestyniadau o'r galw yn y dyfodol fod yn anghywir ac mae angen bod yn wyliadwrus i fonitro'r risg hon. Fodd bynnag, nodwn hefyd nad yw pob gostyngiad i gyllidebau seiliedig ar alw, felly bydd effaith wirioneddol ar weithgarwch a gwasanaethau yn sgil hyn. Rydym wedi gwneud sylwadau ar hyn mewn adrannau eraill o’r adroddiad hwn.

Mae'n ymddangos i ni fod o leiaf rhywfaint o'r ergyd ariannol i MEG y Gymraeg ac Addysg wedi digwydd yn ystod 2023-24, yn benodol yn y gostyngiadau a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Cydnabu'r Gweinidog fod cyllideb y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2024-25 yn gynnydd ar ddyraniad diwygiedig 2023-24. Disgwylir mwy o fanylion yn yr ail Gyllideb Atodol i bennu llinell sylfaen 2023-24 yn gywir, ond mae angen eglurder nawr ar sut y mae'r gyllideb newydd yn cymharu â 2023-24 fel y mae ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 11.** Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i fod yn wyliadwrus o ran y galw yn y dyfodol am y llinellau cyllideb y mae wedi'u lleihau o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg a monitro'n ofalus a oes angen iddi adolygu ei hamcanestyniadau o ofynion er mwyn osgoi unrhyw 'sioc' annisgwyl i gyllidebau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 12.** Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro lefel bresennol cyllideb 2023-24 ac felly'r newid mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn ei gynnig i lefel yr adnoddau a chyfalaf sydd ar gael yn MEG y Gymraeg ac Addysg. Rhaid iddi

[105] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[106] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 15-19

egluro a yw hyn yn gynnydd o £15 miliwn fel y dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor neu £42 miliwn fel y mae'r ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023 yn awgrymu.

## Addysg cyn 16 oed

### Cyllidebau craidd ysgolion

**123.** Er nad yw'r mwyafrif helaeth o gyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion wedi ei gynnwys ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg (gan ei fod yn mynd i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol), gwnaethom holi'r Gweinidog a oes gan awdurdodau lleol adnoddau digonol i wneud darpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion a blaenoriaethu'r rhain yn unol â hynny. Hefyd, holodd ein Cadeirydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Cymru am ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 18 Ionawr.[107]

**124.** Mae Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2024-25 yn darparu 3.1% o gynnydd cyffredinol i awdurdodau lleol (gyda phob awdurdod lleol yn cael o leiaf 2.0%), o gymharu â 2023-24.[108] Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar ba wasanaethau y caiff y cynnydd hwn ei wario. Mae'r cynnydd yn llai na'r 7.9% a 9.4% o gynnydd yn 2023-24 a 2022-23 yn y drefn honno.

**125.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y cynnydd cyfartalog o 3.1% i awdurdodau lleol fel diogelu'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol, y mae ysgolion, ynghyd â gofal cymdeithasol, yn brif dderbynwyr ohono. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yng nghyflwyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb Ddrafft, mae 3.1% o gynnydd yn cwmpasu dim ond tua chwarter y pwysau mae awdurdodau lleol yn ei wynebu yn 2024-25.[109]

**126.** Nid yw'r cyllid ychwanegol a ddyrennir yn dybiannol o fewn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer ysgolion yn cael ei glustnodi, a mater i awdurdodau lleol fydd y cwestiwn a ydynt yn ei ddefnyddio fel hyn ai peidio. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt dalu costau'r dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 o fewn eu setliadau ar gyfer 2023-24 a 2024-25.

[107] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Ionawr 2024, paragraffau 226-233
[108] Llywodraeth Cymru, Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol 2024 i 2025
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig, WGDB_24-25 50, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**127.** Mae athrawon wedi cael 5% o godiad cyflog ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.[110] Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer hyn ac mae'n disgwyl i awdurdodau lleol gyllido hyn o fewn y Grant Cynnal Refeniw. Wrth gymryd yr un sefyllfa y llynedd ynglŷn â'r dyfarniad cyflog cychwynnol o 5% ar gyfer 2022/23, cyfeiriodd y Gweinidog at y 7.9% a 9.4% o gynnydd roedd awdurdodau lleol wedi eu cael yn setliadau 2022-23 a 2023-24 yn y drefn honno fel modd i awdurdodau lleol dalu hyn. (Cyllidodd Llywodraeth Cymru y dyfarniad cyflog ychwanegol o 3% y cytunwyd arno ar gyfer 2022/23 yn y gwanwyn yn dilyn hynny.)

**128.** Dywed y Gweinidog y bydd y 5% o ddyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2023/24 yn costio £46.5 miliwn i awdurdodau lleol rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024, a £79.7 miliwn ar gyfer effaith lawn y flwyddyn yn 2024-25.[111] Yn wahanol i'r ychydig flynyddoedd diwethaf, dim ond 3.1% o gynnydd ar gyfartaledd sydd gan awdurdodau lleol yn 2024-25 i'w ddefnyddio.

**129.** O edrych ar newidiadau i gyllidebau ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf:

- Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer ysgolion yn 2023-24 8.0% yn uwch nag yr oedd yn 2022-23 (1.8% yn uwch mewn termau real*). Mae'r cyllid fesul disgybl 8.2% yn uwch (2.0% yn uwch mewn termau real*).
- Mae cyllid wedi codi 25.8% mewn termau arian parod ers 2019-20 a 6.3% mewn termau real*. Mae'r cynnydd fesul disgybl yn 25.1% mewn termau arian parod a 5.7% mewn termau real*.
- Gan edrych yn ôl dros gyfnod hirach, mae cyllid wedi gostwng 1.7% (2.1% fesul disgybl) mewn termau real* ers 2010-11.

* Mae newidiadau termau real yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio datchwyddwyr Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer Tachwedd 2023.

Mae'r ffigurau ym mharagraff 129 wedi eu cyfrifo gan Ymchwil y Senedd yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

[110] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Dyfarniad Cyflog Athrawon 2023, 5 Hydref 2023
[111] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg, Rhagfyr 2023

### Tabl Dau: Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion

| | Gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion **£ Biliwn** | £ gwariant gros gyllidebwyd ar gyfer ysgolion **fesul disgybl** | Y ganran wedi ei ddirprwyo i ysgolion |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 3.343 | 7,327 | 81.9 |
| 2022-23 | 3.096 | 6,773 | 82.9 |
| 2021-22 | 2.913 | 6,387 | 83.4 |
| 2020-21 | 2.822 | 6,203 | 83.7 |
| 2019-20 | 2.657 | 5,857 | 83.9 |
| 2018-19 | 2.566 | 5,675 | 84.2 |
| 2017-18 | 2.543 | 5,628 | 84.2 |
| 2016-17 | 2.519 | 5,570 | 84.3 |
| 2015-16 | 2.496 | 5,526 | 83.8 |
| 2014-15 | 2.528 | 5,607 | 82.9 |
| 2013-14 | 2.519 | 5,594 | 82.3 |
| 2012-13 | 2.495 | 5,520 | 81.0 |
| 2011-12 | 2.470 | 5,451 | 76.2 |
| 2010-11 | 2.458 | 5,409 | 75.0 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletinau Ystadegol: Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion (rhifynnau sawl blwyddyn)

**130.** Rydym wedi holi'r Gweinidog yn ystod gwaith craffu ar gyllidebau'r blynyddoedd blaenorol ynglŷn â lefel yr arian wrth gefn sydd gan ysgolion. Cofnodir y rhain ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac ers mis Mawrth 2021 maent wedi bod yn sylweddol uwch na'r norm hanesyddol, er bod gostyngiad wedi bod yn 2023.[112] Yr esboniad a roddodd Llywodraeth Cymru oedd bod ysgolion, oherwydd y pandemig, wedi cael adnoddau ychwanegol yn gymharol hwyr yn y flwyddyn ariannol ac, oherwydd hynny, roedd y darlun yn gamarweiniol. [113]

**131.** Mae'r Gweinidog wedi dweud wrth y Pwyllgor yn y ddwy sesiwn graffu[114] ddiwethaf ar y gyllideb y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ac asesu lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion. Mae Tabl Tri isod yn dangos lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf.

[112] Llywodraeth Cymru, Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2023, 26 Hydref 2023
[113] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion paragraffau 87-88
[114] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ionawr 2023, Cofnod y Trafodion paragraffau 87-88 a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Ionawr 2022, Cofnod y Trafodion, paragraffau 55-57

## Tabl Tri: Cronfeydd wrth gefn ysgolion

| | Total | Per Pupil |
|---|---|---|
| March 2023 | £208m | £456 |
| March 2022 | £301m | £659 |
| March 2021 | £181m | £393 |
| March 2020 | £32m | £70 |
| March 2019 | £46m | £102 |
| March 2018 | £50m | £111 |
| March 2017 | £46m | £102 |
| March 2016 | £64m | £142 |
| March 2015 | £64m | £141 |
| March 2014 | £60m | £132 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: Cronfeydd wrth gefn ysgolion (rhifynnau sawl blwyddyn)

**132.** Wrth nodi bod lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi gostwng £93 miliwn rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023 (31% o ostyngiad), mae'r Gweinidog yn cydnabod eu bod yn dal yn uchel. Mae'n dweud bod arwyddion bod ysgolion yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn i reoli chwyddiant a phwysau costau byw. [115] Gwyddom fod gan rai ysgolion gronfeydd wrth gefn negyddol - 8% ar draws Cymru - gyda hyn mor uchel ag 16% o ysgolion ym Mro Morgannwg, 17% ym Mhen-y-bont ar Ogwr a 25% yn Sir Gaerfyrddin. Mae amrywiad sylweddol hefyd rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, gan amrywio o £298 o gronfeydd wrth gefn y disgybl ar draws Bro Morgannwg i £725 y disgybl yng Ngwynedd.[116]

## Cyfuno grantiau

**133.** Ar gyfer 2024-25, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfuno 21 eitem o gyllid a oedd gynt ar wahân i Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG) newydd.[117] Mae'r £379 miliwn ar gyfer y Grant Addysg Awdurdodau Lleol yr un fath â swm y grantiau unigol yn 2023-24 ac £11.8 miliwn yn fwy na'r hyn a gynlluniwyd yng Nghyllideb Ddangosol 2024-25. Fodd bynnag, mae'r £11.8 miliwn wedi dod o gyllidebau presennol y Gymraeg ac Addysg:

[115] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg, Rhagfyr 2023
[116] Llywodraeth Cymru: Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2023
[117] Rhestrir yn Atodiad C o Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023

- £900,000 o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fydd yn cael ei wario ar weithredu a darparu Anghenion Dysgu Ychwanegol o dan y Grant Addysg Awdurdodau Lleol newydd.
- £500,000 o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Grwpiau Agored i Niwed, sydd wedi ei ailflaenoriaethu a'i roi yn elfen Diwygio Addysg y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.
- £8.3 miliwn o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Cymunedol, sydd wedi ei ailflaenoriaethu a'i roi yn elfen Diwygio Addysg y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.
- £2.1 miliwn o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg, sydd wedi ei ailflaenoriaethu a'i roi yn elfen Diwygio Addysg y Grant Addysg Awdurdodau Lleol.

(Bydd y £10.9 miliwn ar gyfer yr elfen Diwygio Addysg yn cael ei ddefnyddio i gynnal a chynyddu ychydig ar gyllid adfer ar ôl y pandemig Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) ar gyfer ysgolion.)

**134.** Rhennir yr LAEG gwerth £379 miliwn yn bedwar llinyn fel a ganlyn:

- Diwygio Addysg (yn enwedig y cwricwlwm ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, ynghyd â dysgu proffesiynol athrawon): £54 miliwn
- Safonau Ysgolion: £160 miliwn
- Tegwch mewn Addysg: £155 miliwn (gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion)
- Cymraeg 2050: £10 miliwn.

**135.** Mae hwn yn ddull cymharol newydd, ond nid yn gyfan gwbl newydd, o ddyrannu cyllid grant amrywiol, sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a phartneriaethau. Y ddwy brif elfen o'r cyllid hwn ar hyn o bryd yw'r Grant Datblygu Disgyblion – a oedd yn werth £128 miliwn yn 2023-24 – a grant sydd eisoes wedi ei becynnu ar ffurf Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol – £158 miliwn yn 2023-24[118] a cheir manylion yn Atodiad E

[118] Darperir dadansoddiad o hyn yn Atodiad E o dystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg ac Addysg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r RCSIG wedi cynnwys y Grant Gwella Addysg (EIG) - gwerth £115 miliwn o'r £158 miliwn yn 2023-24 - a ffurfiwyd yn 2015-16 yn dilyn uno 11 o

ym mhapur y Gweinidog. Mae cyllid arall sydd wedi ei ymgorffori yn yr LAEG yn cynnwys grantiau Cymraeg mewn Addysg a'r cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a roddwyd ar waith ar gyfer adferiad addysgol yn dilyn y pandemig.

**136.** Mae Llywodraeth Cymru wedi uno ffrydiau cyllido o'r blaen, ac wedi sianelu cyllid addysg sy'n cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol drwy'r consortia rhanbarthol. Mae dadansoddiad y gwaith rhanbarthol yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru dros y tair i bedair blynedd diwethaf wedi golygu nad yw'r trefniadau wedi bod yn gyson ledled Cymru.

## Cyllid cyfalaf

**137.** Mae'r rhan helaeth o'r cyllid cyfalaf (£345 miliwn o'r £348 miliwn) o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg ar gyfer gwella'r ystad addysgol (a gofal plant) drwy brosiectau ailwampio mawr ac adeiladu o'r newydd. Gelwir hyn y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt)

**138.** Yn unol â pholisi carbon sero net Llywodraeth Cymru, o fis Ionawr 2022, mae'n rhaid i bob prosiect nad yw eisoes wedi ei gymeradwyo ar y cam Amlinelliad o Achos Busnes weithredu fel prosiect carbon sero net pan fydd ar waith a chael ôl troed carbon is wrth gael ei adeiladu. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cwrdd â'r 'premiwm' carbon sero net o 12.5% ar gyfer pob prosiect Band B.[119]

**139.** I grynhoi'r newidiadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25:

- Mae cyllid cyfalaf y Gymraeg ac Addysg £7 miliwn yn llai na'r hyn y bwriadodd Llywodraeth Cymru ei wario yng Nghyllideb Ddangosol 2024-25, a £24 miliwn yn llai na chyllideb 2023-24 a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn, ac nid oes newid o'r Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin.

- Wrth ystyried y £40 miliwn o ostyngiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, mae gan gyllideb ddrafft 2024-25 £16 miliwn yn fwy o gyllid cyfalaf y Gymraeg ac Addysg na'r sefyllfa ar hyn o bryd.

---

grantiau a oedd wedi'u clustnodi yn flaenorol. Cynhaliodd ein Pwyllgor rhagflaenol ymchwiliad i hyn, gan gyflwyno adroddiad yn 2017.

[119] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023

**140.** Mae'r Gweinidog hefyd yn sôn am tua 25% o gynnydd mewn costau dros y tair blynedd diwethaf, o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, y pandemig, a chynnydd mewn costau ynni. Er bod Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi cael 33% o gynnydd yn ystod y cyfnod gwariant hwn o dair blynedd (o'i gymharu â 2021-22), mae'r codiadau hyn mewn costau wedi "dileu'r cynnydd hwn bron yn llwyr". Mae'r cynnydd yn y gyllideb ers 2022-23 wedi "lliniaru" effaith chwyddiant sy'n golygu y gallai prosiectau sydd eisoes ar y gweill fynd yn eu blaenau. Fodd bynnag, mae effaith tymor canolig i hirdymor chwyddiant wedi effeithio'n andwyol ar yr uchelgais i gyflymu'r gwaith o ddarparu ysgolion a cholegau newydd. Dywedodd y Gweinidog, dros amser, gyda chwyddiant yn parhau'n gymharol uchel, fod costau adeiladu cynyddol yn golygu y bydd llai o ysgolion a cholegau yn cael eu hadeiladu a'u hadnewyddu am yr un lefel o arian.[120]

## Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i'r Gweinidog: addysg cyn-16

### Cyllidebau craidd ysgolion

**141.** Gwnaethom holi'r Gweinidog a yw'n credu bod y cynnydd cyfartalog o 3.1% i'r Grant Cynnal Refeniw yn ddigonol i awdurdodau lleol ariannu cyllidebau ysgolion yn ddigonol, gan gynnwys codiad cyflog athrawon, o ystyried maint y diwygiadau sy'n cael eu gweithredu a'r angen i godi safonau.

**142.** Dywedodd y Gweinidog nad oedd Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw gyllid ychwanegol i dalu am y codiadau cyflog ac nad yw setliad Llywodraeth Cymru yn ddigonol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen craidd[121] a thynnodd sylw at y cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) sy'n gysylltiedig â'r pandemig, y mae wedi gallu ei gynnal a chynyddu ychydig arno yn 2024-25. Ond ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn gorfod gwneud dewisiadau ofnadwy rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu a bod awdurdodau lleol yn gorfod gwneud yr un fath. Pan ofynnwyd iddo am doriadau posibl y gallai fod yn rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud i gyllidebau addysg, cyfaddefodd y bydd canlyniadau mewn ysgolion.[122]

**143.** Pan ofynnwyd iddo am ei asesiad o lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion, pwysleisiodd fod data mis Mawrth 2023 a gyhoeddwyd ym mis Hydref bron yn

[120] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[121] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 61
[122] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 63

flwydd oed a dywedodd ei fod yn disgwyl i'r data nesaf ar gyfer mis Mawrth 2024 ddangos gostyngiad uwch na'r gostyngiad o £100 miliwn rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023.[123]

**144.** Wrth sôn am yr amrywiad rhwng gwahanol rannau o Gymru, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau parhaus gyda chynghorau, a dywedodd y byddai'n synnu'n fawr os nad yw unrhyw un ohonynt yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio.[124]

## Cyfuno grantiau

**145.** Eglurodd y Gweinidog fod creu un Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG) newydd yn ymateb i ddymuniad awdurdodau lleol ac ysgolion i gael trefniadau symlach ar gyfer yr amrywiol grantiau a ffrydiau cyllido y maent yn eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn dod ar sawl ffurf wahanol ac mae rhai yn cael eu sianelu drwy'r consortia rhanbarthol, tra bod rhai yn mynd drwy awdurdodau lleol. Dywedodd y Gweinidog mai'r trefniant newydd fydd yr un mwyaf cydlynol ac y bydd trosglwyddo'r cyllid i awdurdodau lleol yn cydnabod mai nhw (yn hytrach na chonsortia) sydd â chyfrifoldebau statudol dros addysg.[125]

**146.** Pan ofynnwyd iddo a oedd hyn yn adlewyrchu llai o bwyslais ar rôl y consortia (a phartneriaethau amrywiol yn y De-orllewin a'r Canolbarth[126]), cyfeiriodd y Gweinidog at yr adolygiad o'r haen ganol, y mae wedi gofyn i'r Athro Dylan Jones ei gynnal.[127] Dywedodd y byddai telerau ac amodau ar gyfer elfennau'r grant y mae consortia a phartneriaethau yn ymwneud â nhw yn adlewyrchu unrhyw gyllid sydd ei angen arnynt yn ystod cyfnod yr adolygiad.[128]

---

[123] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 69-70
[124] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 72
[125] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 95
[126] Mae rhannu'r gwaith rhanbarthol yn y De-orllewin a'r Canolbarth dros y tair i bedair blynedd diwethaf wedi golygu nad yw'r trefniadau ar gyfer gwella ysgolion wedi bod yn gyson ledled Cymru. Tra bod tri chonsortia yn gweithredu yn y Gogledd, Canol y De a'r De-ddwyrain – GwE, CSC ac EAS yn y drefn honno – yn y De-orllewin a'r Canolbarth, mae Sir Gaerfyrddin., Sir Benfro ac Abertawe yn cydweithio drwy 'Partneriaeth', mae Ceredigion a Phowys yn cydweithio drwy 'Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru', ac mae Castell-nedd Port Talbot yn gweithio ar ei ben ei hun.
[127] Llywodraeth Cymru, Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion: cylch gorchwyl
[128] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 99

**147.** Nododd y Gweinidog, ac eithrio yn enghraifft y Grant Datblygu Disgyblion, na fydd unrhyw glustnodi ffurfiol o elfennau'r LAEG y tu hwnt i'r pedwar llinyn (Diwygio addysg, Safonau ysgolion, Tegwch mewn addysg, a Cymraeg 2050).[129] Fodd bynnag, dywedodd y byddai dull cymysg lle byddai gan rai elfennau delerau ac amodau llymach, yn llywodraethu sut y maent yn cael eu defnyddio. Yn gyffredinol, bydd Llywodraeth Cymru yn mesur y canlyniadau ac yn darparu hyblygrwydd i gynghorau o ran sut y mae'r LAEG yn cael ei wario.[130]

## Cyllid cyfalaf

**148.** Ar ôl dweud yn ei bapur bod chwyddiant a chostau adeiladu uwch yn golygu, heb gyllid ychwanegol, y bydd y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn arafu i bob pwrpas, ymhelaethodd y Gweinidog ar hyn mewn tystiolaeth lafar. Dywedodd fod yr effaith yn debygol o fod yn fwy ar brosiectau llai, yn aml mewn ysgolion cynradd, oherwydd arbedion maint sy'n gysylltiedig â phrosiectau mwy. Nododd gynnydd o 10% mewn costau adeiladu fesul metr sgwâr a dywedodd fod prosiectau llai yn fwy agored i chwyddiant.[131] Pan ofynnwyd iddo beth y gellid ei wneud i liniaru'r effaith ar brosiectau llai, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn newid y gost feincnod. Dyma'r gost y mae'n rhaid i brosiect ei chyrraedd cyn iddo fod yn gymwys ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio dull safonol wrth ddylunio ysgol newydd er mwyn lleihau costau.[132]

### Ein barn ni: addysg cyn 16

Cyllidebau craidd ysgolion

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu, ynghyd â chyllidebau'r GIG, gyllid ar gyfer llywodraeth leol ac mai ysgolion yw'r gwasanaeth mwyaf y mae cynghorau'n gwario arian arno. Fodd bynnag, rydym wedi clywed gan benaethiaid sy'n dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd cynnal amgylchedd diogel i ddisgyblion, oherwydd y pwysau ariannol sydd arnynt. Yn absenoldeb unrhyw gyllid penodol i dalu costau cytundeb cyflog athrawon, rydym yn pryderu y bydd y cynnydd cyfartalog o 3.1% yn y Grant Cynnal Refeniw (llai na'r cynnydd o 7.9% a 9.4% yn y ddwy flynedd flaenorol) yn golygu bod rhaid i awdurdodau lleol wneud toriadau i gyllidebau addysg. Yn wir, ysgrifennodd y

[129] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 97
[130] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 99
[131] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 131-133
[132] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 135

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i roi gwybod i ni fod cynrychiolwyr CLlLC yn glir yn eu tystiolaeth lafar, ar adeg o bwysau dwys ar gyllidebau, fod toriadau i wasanaethau addysg yn anochel.[133]

Credwn fod rhaid i sefyllfa cronfeydd wrth gefn ysgolion barhau i gael ei monitro'n agos. Er bod rhywfaint o gronfeydd wrth gefn yn briodol ac yn rhan o reoli cyllideb yn ddarbodus, mae eu lefel yn parhau i fod yn hanesyddol o uchel, er gwaethaf gostyngiad o 31% rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023. Ar ben hynny, mae cryn amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran cronfeydd wrth gefn cyfartalog ysgolion a'r niferoedd sydd â chronfeydd wrth gefn negyddol. Nodwn fod y Gweinidog yn disgwyl cildroad pellach i lefelau hanesyddol ym mis Mawrth 2024 ac rydym yn croesawu'r ffaith iddo ddweud y byddai'n edrych ar sut y gellid rhannu gwybodaeth â ni yn gynharach na'r amserlen arferol o fis Hydref.

### Cyfuno grantiau

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn ceisio symleiddio trefniadau ar gyfer sut y mae cyllid grant yn cael ei strwythuro a'i ddosbarthu a bod ysgolion ac awdurdodau lleol wedi galw am hyn. Fodd bynnag, fel y craffodd ein Pwyllgor rhagflaenol yn y gorffennol, mae perygl wrth gyfuno grantiau y gall y dibenion unigol fynd ar goll.[134]

Mae gennym bryderon ynghylch sut y bydd canlyniadau'r LAEG yn cael eu monitro ac rydym yn awyddus i weld bod gweithgarwch pwysig, megis y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a chymorth i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n sipsiwn, Roma a theithwyr yn parhau i gael ei flaenoriaethu. Pan fydd cyllid yn dynn, mae'n bwysicach fyth monitro canlyniadau a gwerth am arian. Dyma pam y gwnaethom ni argymhelliad dau.

### Cyllid cyfalaf

Nodwn fod cyllideb gyfalaf y Gymraeg ac Addysg yn llai na'r hyn a gynlluniwyd yng nghyllideb ddangosol 2024-25 ac yn llai na chyllideb 2023-24 fel y'i gosodwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae'n gynnydd ar y dyraniad diwygiedig a gyhoeddwyd ar gyfer 2023-24 ym mis Hydref. Gyda chwyddiant a

[133] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 25 Ionawr 2024
[134] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg [5ed Senedd], Grant gwella addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig, Chwefror 2017

chostau adeiladu cynyddol, mae'n amlwg y bydd llai yn cael ei gyflawni gyda'r un arian os yw cyllidebau'n aros yn sefydlog, neu y bydd llai fyth yn cael ei gyflawni os bydd cyllidebau'n lleihau.

Rydym yn pryderu am yr hyn y dywedodd y Gweinidog am yr effaith ar brosiectau llai, er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud ag ysgolion cynradd, yn bennaf oherwydd arbedion maint. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i archwilio opsiynau i liniaru'r effeithiau hyn er mwyn cyfyngu ar yr effeithiau andwyol ar gynnydd o dan y Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

**Argymhelliad 13.** Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'n ofalus ganlyniadau ei phenderfyniadau yn y Gyllideb Ddrafft a darpariaeth awdurdodau lleol ar gyfer cyllidebau ysgolion, ac ystyried beth arall y gall ei wneud i sicrhau bod cymaint o arian yn bosibl yn cael ei fuddsoddi mewn addysg. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Pwyllgor erbyn mis Hydref 2024.

**Argymhelliad 14.** Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro’n agos lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan ysgolion, yn enwedig yr amrywiaeth rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod cymaint o arian yn cael ei wario ar y rheng flaen ag sy'n ddarbodus ac yn briodol ac i gefnogi ysgolion sy'n cael trafferth mantoli eu cyllideb. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i’r Pwyllgor erbyn mis Hydref 2024.

**Argymhelliad 15.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod systemau monitro effeithiol ar waith ar gyfer y Grant Addysg Awdurdodau Lleol a sicrhau nad yw cyfuno cyllid yn arwain at lastwreiddio effaith gweithgareddau ac ymyriadau a oedd wedi’u clustnodi’n flaenorol.

**Argymhelliad 16.** Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio pob opsiwn i leihau unrhyw effaith andwyol ar gynnydd y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn sgil cyllidebau sefydlog neu ostyngiad mewn cyllidebau, yn enwedig yng ngoleuni chwyddiant a chostau adeiladu cynyddol.

## Addysg ôl-16

**149.** Fel y dywedon ni yn gynharach yn y bennod hon, dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod wedi diogelu cyllidebau addysg cyn-16, a oedd yn golygu bod

"dewisiadau anodd wedi'u gwneud i ailffocysu cyllid o addysg bellach ac addysg uwch".[135]

**150.** Cafwyd £14.528 miliwn o ostyngiad cyffredinol i'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16, o gymharu â'r hyn a gynlluniwyd, gan fynd â chyfanswm y gyllideb ar gyfer 2024-25 i £579.113 miliwn. Mae'r Cam Gweithredu Addysg Uwch wedi gweld £11 miliwn o ostyngiad, gan fynd â chyfanswm y gyllideb i £188 miliwn. Mae'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-15 wedi gostwng £63.5 miliwn, gan fynd â chyfanswm y gyllideb i £815 miliwn.[136]

## Addysg Bellach, Cyfrifon Dysgu Personol a Taith

**151.** O'r gostyngiad o £14.5 miliwn i'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16, mae £12.9 miliwn yn dod o'r gyllideb ar gyfer colegau addysg bellach (AB), tra bod £1.6 miliwn o'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, "Taith".

**152.** O fewn y gostyngiad o £12.9 miliwn ar gyfer Addysg Bellach, daw £7.2 miliwn o Gyfrifon Dysgu Personol. Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn gyrsiau rhan-amser sydd wedi eu hanelu at unigolion sydd eisiau ennill sgiliau lefel uwch i gael mynediad at gyfleoedd gwaith ehangach neu i gael gwaith o fewn sector blaenoriaeth. Mae sectorau blaenoriaeth yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: sero net a thechnolegau gwyrdd, sgiliau digidol, ac iechyd a gofal cymdeithasol.

**153.** Dywed Llywodraeth Cymru y bydd gostyngiadau i Gyfrifon Dysgu Personol "yn effeithio ar ein hymrwymiad i gynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu". [137] Dywed papur y Gweinidog bod "swyddogion yn cynnig y dylid prif-ffrydio a blaenoriaethu gweithgarwch Cyfrifon Dysgu Personol o fewn darpariaeth addysg bellach ran-amser". Ychwanega, "fodd bynnag, bydd amsugno'r lefel hon o gyllid mewn darpariaeth addysg bellach ran-amser brif ffrwd... yn effeithio fathau eraill o ddarpariaeth ran-amser a ddarperir ar hyn o bryd ledled Cymru, ac yn eu lleihau".[138]

**154.** Nododd papur y Gweinidog fod sefydliadau addysg bellach wedi "wynebu costau cynyddol nwyddau traul a ddefnyddir i ddarparu rhaglenni dysgu

[135] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[136] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Atodiad A, Rhagfyr 2023
[137] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[138] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023

galwedigaethol". Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i gydnabod y costau hyn. Fodd bynnag, ychwanegodd papur y Gweinidog fod "blaenoriaethu cyllideb 2023-24 yn ystod y flwyddyn wedi golygu na allem barhau i gefnogi hyn yn 2023/24, a fydd yn cael rhywfaint o effaith ar allu dysgwyr i ymarfer dysgu drwy lwybrau galwedigaethol penodol".[139]

**155.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn "ailgyfeirio £1.6m o'r rhaglen Taith a fydd yn effeithio ar gyfleoedd dysgu rhyngwladol i ddysgwyr a staff ledled Cymru".[140] Dywedodd papur y Gweinidog fod hyn yn 19.75% o ostyngiad o ddyraniad 2023-24, sef £8.1 miliwn.[141]

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

**156.** Yn ein hadroddiad y llynedd, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) wedi'i rewi ar ei lefel bresennol ers blynyddoedd lawer.[142] Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ei gynyddu o £30 yr wythnos i £40 yr wythnos a chomisiynu adolygiad annibynnol i edrych ar faterion megis meini prawf cymhwystra incwm aelwydydd. Nodwn, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, fod Sefydliad Bevan wedi galw am ailystyried yn yr un modd Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach 19 oed neu hŷn o aelwydydd incwm isel.

> *"That has all the same problems that EMA had, which is that the eligibility thresholds have been frozen and the value of the grant has been frozen. I cannot imagine any adult wanting to study or being able to study when the grant towards their living costs is barely £1,000 a year. So, it seems to me, if we're serious about getting adults back into learning and giving them some financial support, that that is the next thing to be looked at."*[143]

---

[139] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[140] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[141] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[142] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Chwefror 2022
[143] Y Pwyllgor Cyllid, 10 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 322

## Cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig

**157.** Un o'r elfennau mwyaf o'r £103 miliwn y bu'n rhaid i'r Gweinidog ei dynnu o'i MEG i ariannu blaenoriaethau trawslywodraethol y GIG a llywodraeth leol yw'r £63.5 miliwn o gymorth i fyfyrwyr. Er bod y Gweinidog yn pwysleisio bod y rhain yn seiliedig ar alw a bod y rhan fwyaf o'r gostyngiad yn seiliedig ar nifer is o fyfyrwyr, bydd rhywfaint o'r gostyngiad (£10 miliwn) yn golygu llai o gymorth i rai myfyrwyr - myfyrwyr ôl-raddedig newydd sy'n hanu o Gymru. O flwyddyn academaidd 2024-25, ni fydd grantiau ar gyfer myfyrwyr Meistr ôl-raddedig newydd, dim ond benthyciadau.

**158.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn arbed £3.2 miliwn drwy gau tri bwrsari cymhelliant ôl-raddedig y mae wedi'u darparu ers 2019-20:

- £4,000 i bobl dros 60 oed. Nod y grant yw rhoi cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hyn nad ydynt yn gallu cael y cyllid cwrs Meistr ôl-raddedig.
- £2,000 i raddedigion o bob oedran sy'n astudio pynciau STEMM (mae'r rhain yn cynnwys gradd Meistr mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg neu feddygaeth);
- £1,000 ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**159.** Dywed Llywodraeth Cymru bod y cyllid hwn "o fudd anghymesur i fenywod a'i fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hyfforddiant mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth".[144]

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

**160.** Mae £11 miliwn o ostyngiad i Linell Wariant yn y Gyllideb gwariant ar raglenni Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Dywedodd papur y Gweinidog bod "y gyllideb wedi'i lleihau… o ganlyniad i'r ymarfer ailflaenoriaethu".[145] Mae £7.8 miliwn o'r £11 miliwn yn ostyngiad i gyllideb CCAUC sydd heb ei glustnodi, tra bod £3.2 miliwn yn deillio o gael gwared ar y bwrsariaethau cymhelliant ôl-raddedig a drafodwyd uchod.

**161.** Y bwriad oedd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gael ei ddiddymu ac i'w swyddogaethau gael eu trosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac

---

[144] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023
[145] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023

Ymchwil (CTER) ym mis Ebrill 2024. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl ein sesiwn graffu, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd hyn yn cael ei ohirio tan fis Awst 2024, gyda'r comisiwn newydd yn dechrau ar ei waith cynllunio a pharatoi yn unig ym mis Ebrill 2024.[146] Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gynllunio, ariannu a llywodraethu pob elfen o addysg a hyfforddiant ôl-16, felly bydd ganddo gyllideb ddisgwyliedig o tua £800 miliwn.

**162.** Dywedodd papur y Gweinidog y bydd "dyraniadau cyllid penodol, gan gynnwys unrhyw fanylion am gyllid neilltuedig, yn dilyn yn llythyr cyllido'r Comisiwn".[147] Roedd i fod i gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ym mis Rhagfyr 2023 a gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn. Tynnwyd datganiad y Cyfarfod Llawn yn ôl ac, ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, nid yw'r datganiad o flaenoriaethau wedi ei gyhoeddi.

## Gradd-brentisiaethau

**163.** Mae'r Gweinidog yn rhannu cyfrifoldeb am radd-brentisiaethau gyda Gweinidog yr Economi. O'r herwydd, darperir cyllid gan Brif Grwpiau Gwariant y ddau Weinidog. Yn 2023-24, darparwyd tua £5 miliwn yng nghyllideb CCAUC ar gyfer gradd-brentisiaethau a darparwyd £4.4 miliwn gan MEG yr Economi drwy drosglwyddiad yn y Gyllideb Atodol gyntaf.

**164.** Dywedodd papur y Gweinidog eleni y caiff "manylion cyllid neilltuedig ar gyfer y Comisiwn newydd, gan gynnwys prentisiaethau gradd, eu hamlinellu yn llythyr cyllido'r Comisiwn".[148]

**165.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog yr Economi i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig nad oes "unrhyw drosglwyddiadau'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o gyllideb ddrafft 2024-25 i gefnogi Prentisiaethau Gradd".[149] Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog, ysgrifennodd atom i

[146] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Diweddariad, 24 Ionawr 2024
[147] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[148] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[149] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Rhagfyr 2023

gadarnhau y "bydd y gyllideb briodol yn cael ei throsglwyddo o Brif Grŵp Gwariant Economi yn y gyllideb atodol ar gyfer 2024-25".[150]

## Yr hyn y gwnaethom ei ofyn i'r Gweinidog: addysg ôl-16

### Addysg bellach

**166.** Nododd papur y Gweinidog, cyn y Gyllideb Ddrafft hon, fod y cyllid ar gyfer colegau addysg bellach wedi cynyddu 29%.[151] Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y dylid gweld y gostyngiad yn 2024-25 yn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, cydnabu y bydd prif ffrydio cyllid Cyfrifon Dysgu Personol, ac amsugno'r gostyngiad o £7 miliwn, yn y gyllideb ehangach ar gyfer dysgu rhan-amser yn cael y sgil-effaith bod llai o oedolion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn addysg ran-amser.[152]

### Grantiau ôl-raddedig

**167.** Pan ofynnwyd pam mae Llywodraeth Cymru yn terfynu grantiau ar gyfer myfyrwyr Meistr ôl-raddedig newydd ac yn newid i fenthyciadau yn lle hynny, dywedodd y Gweinidog:

> *"This is one of those very difficult decisions that we've had to take, and the question we then have to ask is: what do we prioritise among all of the things that we want to do? The provision for postgraduates here in Wales is amongst the most supportive across the UK, so these changes start from that point, if you like. ...*
>
> *In terms of prioritising, what I decided was that we have to spend the money we have in the most innovative way we can— so, where that money has the most impact to give people the best opportunities. And we know from evidence from all sides that the sooner you spend that money in an educational*

[150] Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024
[151] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, Rhagfyr 2023
[152] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 23-24

> *journey, that's where you see the most positive impact during people's lives."*[153]

**168.** Gwnaethom holi hefyd am y penderfyniad i ddod â'r bwrsarïau cymhelliant ôl-raddedig i ben ac, o gofio y bydd hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod ac yn cefnogi hyfforddiant mewn pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth (STEMM), a yw hynny'n golygu nad yw Llywodraeth Cymru yn gweld bod cefnogi'r myfyrwyr hyn yn flaenoriaeth mwyach. Dywedodd y Gweinidog:

> *"I don't think it's fair to say that at all, but, again, it's a process of deciding where you spend the money that's available, and there's far less money this year than in other years. …*
>
> *… we're talking about a relatively small cohort of people, and this support is with the most generous, if you like, so it's support that's available on top of other support for graduates …*
>
> *So, the decision, again, is whether you prioritise a cohort of people in that situation, or whether you try and ensure that you can provide that money for the basic education of every child in Wales, and the decision I made was that we needed to prioritise the latter, for that purpose."*[154]

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

**169.** Gwnaethom ofyn pryd y gallem ddisgwyl gweld mwy o fanylion am ddyraniad wedi'i neilltuo o fewn y gyllideb ddisgwyliedig o £800 miliwn y bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei rheoli, er enghraifft, ei lythyr cyllido gan Lywodraeth Cymru a'r datganiad o'i flaenoriaethau. Dywedodd y Gweinidog fod y newid i'r Comisiwn yn broses gymhleth a'i bod yn fater o daro'r cydbwysedd rhwng y tryloywder y mae pobl ei eisiau cyn gynted â phosibl a'r ffaith y bydd y comisiwn yn gorff hyd braich nad yw wedi'i sefydlu'n llawn eto. Dywedodd ei fod yn wyliadwrus ynglŷn â rhoi arwyddion penodol gan y gallai hynny arwain at ddyfalu.[155]

---

[153] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 26-27
[154] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 32
[155] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 40

**170.** Dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod wedi penderfynu gohirio'r datganiad am flaenoriaethau'r Comisiwn o fis Rhagfyr tan ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi gan ei fod yn "teimlo yn rhyfedd i fi wneud datganiad o flaenoriaethau a doedd y cyd-destun cyllidebol ddim ar gael". Dywedodd ei fod yn bwriadu cyhoeddi'r datganiad o flaenoriaethau ddiwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror.[156]

**171.** Ers ei sesiwn graffu gyda ni, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi oedi cyn i'r Comisiwn ymgymryd â'i swyddogaethau tan fis Awst 2024, ac na fydd y Comisiwn newydd ond yn dechrau gwaith ar ei gynllun strategol ym mis Ebrill.[157] Nid yw'n hysbys eto pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r datganiad o flaenoriaethau a'r llythyr cyllido.

## Gradd-brentisiaethau

**172.** Gwnaethom holi'r Gweinidog am y ffaith bod papur Gweinidog yr Economi ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dangos na fyddai unrhyw arian o'i MEG yn cael ei ddarparu ar gyfer gradd-brentisiaethau, ac nad oes manylion chwaith am ddyraniadau penodol o fewn cyllideb CCAUC ar gyfer hyn.[158]

**173.** Ymatebodd yn ysgrifenedig a chadarnhau, er na ellir cadarnhau faint o gyllid a fydd yn cael ei glustnodi ar gyfer gradd-brentisiaethau ar hyn o bryd, y bydd y gyllideb briodol yn cael ei throsglwyddo o MEG yr Economi yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2024-25.[159]

### Ein barn ni: addysg ôl-16

#### Cymorth ariannol i ddysgwyr

Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ceisio diogelu cyllidebau addysg cyn-16 a bod hyn wedi arwain at benderfyniadau anodd ynghylch cyllidebau addysg ôl-16. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol a'r ffaith bod y gostyngiad hwn yn cael ei amsugno

---

[156] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 17 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 36
[157] Datganiad Ysgrifenedig: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Diweddariad, 24 Ionawr 2024
[158] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 – Prif Grŵp Gwariant yr Economi (MEG), Ionawr 2024
[159] Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024

gan y gyllideb Addysg Bellach ran-amser brif ffrwd. Roeddem yn bryderus o glywed cyfaddefiad y Gweinidog y bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar ddarpariaeth ran-amser a nifer yr oedolion sy'n manteisio ar gyfleoedd.

Yn yr un modd, rydym yn siomedig bod grantiau ar gyfer ôl-raddedigion yn dod i ben ac y bydd y rhain yn cael eu disodli gan fenthyciadau y bydd angen eu had-dalu. Byddwn hefyd yn edrych ar effaith dod â thri bwrsari sy'n ceisio annog grwpiau penodol o ddysgwyr ôl-raddedig sy'n oedolion (pobl dros 65 oed, STEMM a chyfrwng Cymraeg) i ben.

Mae'n amlwg i ni felly nad yw'r holl doriadau i gymorth i fyfyrwyr yn ailamcanestyniad o'r galw na fydd yn arwain at effaith ar unigolion. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o arwain at lai o oedolion yn gallu dysgu ac yn mynd yn groes i'r agenda ail gyfle y mae addysg oedolion yn ei chynrychioli ac y mae Llywodraeth Cymru yn ei heirioli. Mae'n debygol o gael ei ystyried fel cam sy'n gwanhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddysgu gydol oes. Efallai y bydd canlyniadau economaidd hefyd yn sgil disodli grantiau ôl-raddedig gyda benthyciadau oherwydd, yn aml, dyma'r mathau o bobl y mae eu harloesedd a'u harbenigedd yn sbarduno twf economaidd.

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

Nodwn dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid gan Sefydliad Bevan. Er ei fod yn croesawu'r cynnydd yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg y llynedd, mynegodd bryder ynghylch y penderfyniad i barhau i rewi Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr 19 oed a throsodd mewn Addysg Bellach.

### Gradd-brentisiaethau

Mae gradd-brentisiaethau yn rhan bwysig iawn o'r dirwedd addysg a hyfforddiant ôl-16 ac mae angen eu hyrwyddo. Rydym yn croesawu'r cadarnhad y bydd cyllid yn cael ei ddarparu gan MEG yr Economi a hefyd yn edrych ymlaen at gael manylion pellach ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei gefnogi o gyllideb y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

### Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Bydd gan y Comisiwn newydd gyllideb sylweddol ac mae angen tryloywder a chraffu ynghylch sut y caiff hon ei dyrannu a'i gwario. Mae'n ymddangos yn rhyfedd i ni fod y Gweinidog wedi aros tan ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei phennu cyn penderfynu ar flaenoriaethau'r Comisiwn. Dylai'r blaenoriaethau lywio penderfyniadau cyllidebol, nid i'r gwrthwyneb. Rydym yn edrych ymlaen at y

datganiad o flaenoriaethau pan gaiff ei gyhoeddi maes o law, ond rydym yn gresynu at yr oedi a gyhoeddwyd cyn y bydd y Comisiwn yn ymgymryd â'i swyddogaethau.

**Argymhelliad 17.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y mae ei phenderfyniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar ei hymrwymiad a'i hamcanion mewn perthynas â dysgu gydol oes, gan gyfeirio'n benodol at grantiau ôl-raddedig a dysgu rhan-amser, a chwilio am ffyrdd o liniaru effaith gostyngiadau.

**Argymhelliad 18.** Yn amodol ar ei hystyriaeth o argymhelliad 16, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi oedolion sy'n dysgu a myfyrwyr ôl-raddedig ymhellach, yng nghyd-destun pwysigrwydd dysgu gydol oes i unigolion ac i gymdeithas a'r economi gyfan.

**Argymhelliad 19.** Rhaid i Lywodraeth Cymru, heb ormod o oedi, gyhoeddi ei datganiad o flaenoriaethau a llythyr cyllido ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a darparu cyfeiriad clir a thryloywder ar ei disgwyliadau ar gyfer sut y bydd cyllideb y Comisiwn yn cael ei defnyddio.